All of the regulations in Part 5 relating to Directives include provisions that modify the existing interpretation provisions already found in those Directives (by modifying the existing definitions or introducing new definitions). From a practical point of view, it means that readers of those EU Directives on legislation.gov.uk, Westlaw and LexisNexis should be alerted to the existence of those modifications. However, the other definitions for those EU Directives found in regulations 2 and 8 will not be included in the textual comments for the EU Directives on those online resources which means that readers will not necessarily be aware of their existence. Therefore, it could be argued that it undermines the accessibility of Welsh Law (see section 1 of the Legislation (Wales) Act 2019). The Welsh Government is asked to explain why it took the approach of including definitions in regulations 2 and 8 rather than including them in the regulations that modify the interpretation provisions in each Directive.

Similarly, in regulation 8(2), the terms "national reference laboratory" and "official laboratory" are defined but are not used in these Regulations or in the modifications to the EU Directives found in Part 5. This approach could potentially confuse or mislead readers of these Regulations. The defined terms are used in the existing text of some of the Directives listed in Part 5, even if they are not used in the modifications found in these Regulations. The Welsh Government is therefore asked to explain why it did not modify the interpretation provisions found in those Directives for the purposes of accessibility

**33. Standing Order 21.3(ii) – that it is of political or legal importance or gives rise to issues of public policy likely to be of interest to the Senedd.**

Limited consultation has taken place in relation to these Regulations. The Explanatory Memorandum explains that:

> *No consultation requirement arises from the use of the [European Union] Withdrawal Act [2018], and there are no policy changes therefore we do not expect this instrument to have an impact on stakeholders. Conditions for importation of animal or animal products or approval of establishments for example are not being affected by these modifications. This instrument does not introduce any new duties or obligations to users or enforcement agencies. These modifications will allow the existing rules to continue to apply in Wales following our departure from the EU.*
>
> *There is a consultation requirement for changes by virtue of regulation 3(8) which amends Schedule 3, paragraph (8) of TARP Wales. Consultation was led by the UK Government on a GB-wide basis in 2021 and the responses were very favourable.*

The preamble to the Regulations state that:

> *…the Welsh Ministers have consulted such bodies and persons as appear to the Welsh Ministers to be representative of the interests likely to be substantially affected by these Regulations and such other bodies or persons as the Welsh Ministers consider appropriate.*

This appears to be inconsistent with the final paragraph of the quote from the Explanatory Memorandum above, which states that the consultation was led by the UK Government. Clarification is therefore requested from the Welsh Government as to how the consultation took place.

**34. Standing Order 21.3(ii) – that it is of political or legal importance or gives rise to issues of public policy likely to be of interest to the Senedd.**

Over 70 typographical errors and errors in the footnotes to these Regulations have been found, which have been notified separately to Welsh Government officials. The Committee notes that footnotes do not form part of the Regulations themselves, but they are a useful tool for readers of legislation only insofar as they are accurate and the Committee therefore encourages the Welsh Government to ensure that this is the case.

## Welsh Government response

A Welsh Government response is required to the technical reporting points and the merits points except for point 28 and 34.

**Legal Advisers**
**Legislation, Justice and Constitution Committee**
**7 December 2022**

# SL(6)296 – The Non-Domestic Rating (Chargeable Amounts) (Wales) Regulations 2022

## Background and Purpose

These Regulations prescribe rules to be used to calculate the chargeable amount for hereditaments with increased non-domestic rates (NDR) liability of over £300, as a result of the increase in rateable value of their hereditament, following the compilation of the new NDR rating list on 1 April 2023.

The Regulations reduce the liability of eligible ratepayers, by phasing in the increase over a two-year period: eligible ratepayers will be entitled to a phased reduction in the increase in NDR liability over a two-year period (67% reduction in 2023-24, and 34% in 2024-25).

The Regulatory Impact Assessment for these Regulations states:

> *Businesses have faced considerable economic changes and challenges since the previous revaluation and, in particular, due to the impact of the coronavirus pandemic and recent cost-of-living pressures. As a consequence, many ratepayers for medium and large properties may have difficulty paying their full increase in liability in the first year following revaluation. Some of these ratepayers may also see the largest increases in liability. This option would ensure all parts of the tax-base are supported in a straightforward and consistent manner.*

## Procedure

Draft affirmative.

The Welsh Ministers have laid a draft of the Regulations before the Senedd. The Welsh Ministers cannot make the Regulations unless the Senedd approves the draft Regulations.

## Technical Scrutiny

No points are identified for reporting under Standing Order 21.2 in respect of this instrument.

## Merits Scrutiny

The following point is identified for reporting under Standing Order 21.3 in respect of this instrument.

**1. Standing Order 21.3(ii) – that it is of political or legal importance or gives rise to issues of public policy likely to be of interest to the Senedd**

We note the phased introduction of the increase in NDR liability from 1 April 2023 onwards, and the cost of this to the Welsh Government as set out in the Regulatory Impact Assessment:

*This option would support an estimated 39,600 properties, at a cost to the Welsh Government of £75.2m in 2023-24 and £37.6m in 2024-25, totalling £112.8m over a two-year period.*

## Welsh Government response

A Welsh Government response is not required.

**Legal Advisers**
**Legislation, Justice and Constitution Committee**
**8 December 2022**

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: SL-1325

Huw Irranca-Davies MS
Chair – Legislation, Justice and Constitution Committee
Senedd Cymru
Cardiff Bay
CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales

8 November 2022

Dear Huw,

**THE NON-DOMESTIC RATING (CHARGEABLE AMOUNTS) REGULATIONS 2022**

I am writing to notify you of the potential need for the above Regulations which it may be necessary to present to the Committee with limited time available for scrutiny.

As part of non-domestic rates revaluations, consideration is given to the impact on ratepayers of changes in their local tax liabilities. The Welsh Ministers have powers to introduce transitional relief, under sections 58, 143(1) and 146(6) of the Local Government Finance Act 1988. Under these powers, any regulations must follow the draft affirmative procedure and must be in force prior to 1 January of the year of a revaluation. The next revaluation is scheduled to take place on 1 April 2023 and, as such, any regulations under these powers must commence by 31 December 2022 at the latest.

Unfortunately, I am not in possession of the relevant details to inform a balanced decision on this matter, due to the timing of the UK Government's Autumn Statement scheduled for 17 November. Following the Autumn Statement, I will make a policy decision as soon as possible, considering the financial position of the Welsh Government. Given the potential costs of any scheme, the pressures on the budgets and the current uncertainty as to the resources available to the Welsh Government for 2023-24, it would be irresponsible for me to do so before all of the relevant information is available.

Should I decide that relief is necessary, draft Regulations will be developed at pace, with the intention of their being debated on 13 December.

The 13 December Plenary slot is necessary to meet the 1 January 2023 deadline. Unfortunately, the draft Regulations may not be available to be laid until 6 December. I acknowledge that this provides a much compressed timetable for the consideration of the draft Regulations and I am therefore giving you as much notice as possible of the potential time-scales and seeking the Committee's assistance in expediting the scrutiny of the draft Regulations, if needed.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

I trust the Committee will appreciate the circumstances that necessitate this condensed timetable for scrutiny and will be able to provide its views within a shortened timeframe.

I am copying this letter to the Llywydd, Elin Jones MS, and the Chair of the Local Government and Housing Committee, John Griffiths MS, for their information.

Yours sincerely,

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Rebecca Evans MS
Minister for Finance and Local Government

16 November 2022

Dear Rebecca

The Non-Domestic Rates (Chargeable Amounts) Regulations 2022

Thank you for your letter of 8 November informing us that, should it be necessary to lay the Non-Domestic Rates (Chargeable Amounts) Regulations 2022, it is likely that the timetable for their scrutiny will need to be expedited.

We acknowledge your explanation that this is as a result of the UK Government's Autumn Statement being scheduled for 17 November and the need for the Welsh Government to have all available information before making a policy decision on these Regulations.

We are aware that any Regulations must follow the draft affirmative procedure and must be in force prior to 1 January of the year of a revaluation.

You have told us that draft Regulations may not be available to be laid until 6 December, with the intention of their being debated on 13 December. We welcome your acknowledgement that this provides a much compressed timetable for our consideration of the draft Regulations and we thank you for seeking, well in advance, our assistance in expediting scrutiny, should that be needed.

We, and our supporting Senedd Commission officials, will do our best to undertake scrutiny of the draft Regulations within the required timeframes.

You may be aware that we have also received a request from the Minister for Climate Change to expedite our consideration of regulations to facilitate the implementation of the *Renting Homes (Wales) Act 2016*.

I would ask that you keep us, and our officials, updated with relevant developments.

Yours sincerely,

Huw Irranca-Davies
Chair

# SL(6)267 – Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau o ran gweithredadwyedd i Reoliadau Marchnata Hadau (Cymru) 2012 a Rheoliadau Marchnata Planhigion Ffrwythau a Deunyddiau Lluosogi (Cymru) 2017.

Mae Llywodraeth Cymru yn esbonio yn ei Memorandwm Esboniadol fod y gwelliannau hyn yn *"ofynnol o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd"* a'u bod *"yn diwygio is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â marchnata hadau a deunyddiau plannu ffrwythau i gywiro diffygion o ran gweithredadwyedd na roddwyd cyfrif amdanynt mewn offerynnau diwygio cynharach."*

## Gweithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

O ran rheoliad 1, teitl y Rheoliadau yn y fersiwn Saesneg yw: "The Marketing of Seeds and Plant Propagating Material **(Wales) (Amendment)** (EU Exit) Regulations 2022" (ychwanegwyd y pwyslais). Fodd bynnag, yn y fersiwn Gymraeg o reoliad 1, teitl y Rheoliadau yw: "Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion **(Diwygio) (Cymru)** (Ymadael â'r UE) 2022" (ychwanegwyd y pwyslais).

Wrth gymharu'r ddwy fersiwn o'r Rheoliadau, nid yw'n glir pam mae "(Wales)" ac "(Amendment)", a "(Cymru)" a "(Diwygio)", yn ymddangos mewn trefn wahanol. O ystyried bod y Rheoliadau hyn yn diwygio offerynnau statudol Cymru, yn hytrach nag offerynnau statudol y DU, ymddengys mai'r drefn a welir yn y fersiwn Saesneg sy'n briodol.

**2. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Parthed rheoliad 2(2)(a)(i), yn fersiwn Gymraeg y Rheoliadau, mae'r dyfynodau cau wedi'u hepgor ar ôl "…*quarantine pest*")" a chyn "rhodder". Yn absenoldeb y dyfynodau cau hynny, mae'n bosibl na fydd eglurder ynghylch ble mae'r testun sydd i'w amnewid yn dod i ben, sydd â goblygiadau o ran effaith y rheoliad.

Mae fersiynau Cymraeg a Saesneg y Rheoliadau hefyd yn cynnwys gwahanol ddulliau o ddefnyddio dyfynodau yn rheoliad 2(2)(a)(i) a (iii). Wrth amnewid testun, mae'r fersiwn Saesneg yn cynnwys dyfynodau sy'n rhagflaenu'r term diffiniedig ym mharagraff A1 o Atodlen 2 i Reoliadau Marchnata Hadau (Cymru) 2012 (yn y testun sy'n cael ei amnewid a'r testun newydd). Nid yw'r testun Cymraeg yn cynnwys y dyfynodau hynny.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron y Senedd ar gyfer sifftio o dan baragraff 4 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, yn unol â Rheol Sefydlog 27.9A. Trafododd y Pwyllgor y drafft hwnnw ar 26 Medi 2022, a chytunodd mai'r weithdrefn negyddol oedd y weithdrefn briodol ar gyfer y Rheoliadau hyn.

**4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Ni chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Yn hyn o beth, nodir y frawddeg a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Gan fod y Rheoliadau'n darparu newid cyfyngedig, sy'n effeithio ar nifer bach o unigolion ac nad yw'n adlewyrchu newid ym mholisi Llywodraeth Cymru, ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â phwyntiau adrodd 1 a 2 yn unig.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 24 Hydref 2022 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022**

**Pwynt Craffu Technegol 1:** Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r pwynt a godwyd a bydd yn ceisio unioni hyn drwy slip cywiro ar y cyfle cyntaf.

**Pwynt Craffu Technegol 2:** O ran rheoliad 2(2)(a) mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod gwall teipograffyddol ond mae'n ystyried mai'r dyfynnod agoriadol yw'r dyfynnod sydd ar goll yn hytrach na'r dyfynnod cloi. Hynny yw: dylai *“pla cwarantin …”* ddarllen “*“pla cwarantin …”*.

O ran y pwynt craffu technegol a godwyd mewn cysylltiad â rheoliad 2(2)(a)(i) a (iii), mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod y drafftio'n wahanol yn y fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r Rheoliadau. Bydd yn ceisio unioni'r gwallau hyn drwy slip cywiro ar y cyfle cyntaf.

**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022**

**Pwynt Craffu Technegol 1:** Yn Ymateb y Llywodraeth i Adroddiad y Pwyllgor dyddiedig 24 Hydref 2022, esboniodd Llywodraeth Cymru y byddai'n ceisio cywiro'r gwall hwn drwy slip cywiro cyn gynted â phosibl. Mae Cofrestrydd yr OSau bellach wedi cadarnhau nad yw slip cywiro yn briodol ar gyfer cywiro'r newid yn y teitl. Bydd Offeryn Statudol sy'n cywiro yn cael ei wneud felly yn hytrach na slip cywiro.

**Pwynt Craffu Technegol 2:** Y bwriad oedd defnyddio slip cywiro i gywiro'r gwall hwn. Fodd bynnag, gan fod Offeryn Statudol sy'n cywiro yn cael ei wneud i ymdrin â phwynt craffu technegol 1, bydd yr Offeryn Statudol sy'n cywiro yn ymdrin â phwynt craffu technegol 2 hefyd.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | Rheoliadau Asiantaethau'r UE (Dirymiadau) 2022 |
| **DYDDIAD** | **05 Rhagfyr 2022** |
| **GAN** | **Lesley Griffiths AS**<br>**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**<br><br>**Jeremy Miles AS**<br>**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg** |

Bydd Aelodau'r Senedd am gael gwybod ein bod yn rhoi caniatâd i'r Ysgrifennydd Gwladol arfer pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru.

Gofynnwyd am gydsyniad gan Alex Burghart AS i wneud Offeryn Statudol (OS) o'r enw Rheoliadau Asiantaethau'r UE (Dirymiadau) 2022 i fod yn gymwys mewn perthynas â Chymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Bydd yr Offeryn Statudol (OS) a grybwyllwyd uchod yn cael ei wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 8(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Mae'r OS yn dirymu Rheoliad (CE) Rhif 1339/2008 a Rheoliad (UE) Rhif 2019/128, sydd wedi parhau i weithredu fel rhan o gyfraith ddomestig ers diwedd y cyfnod gweithredu, er gwaethaf y ffaith bod y Deyrnas Unedig wedi gadael dwy asiantaeth yr UE y maent yn berthnasol iddynt. Dirymir Rheoliad (CE) Rhif 1339/2008 gan nad yw'r Deyrnas Unedig bellach yn cymryd rhan yn y Sefydliad Hyfforddiant Ewropeaidd. Dirymir Rheoliad (UE) Rhif 2019/128 gan nad yw'r Deyrnas Unedig bellach yn cymryd rhan yn y Ganolfan Ewropeaidd ar gyfer Datblygu Hyfforddiant Galwedigaethol, a elwir yn "Cedefop".

Gosodwyd y Rheoliadau gerbron y Senedd ar 1 Rhagfyr 2022 i ddod i rym ar 22 Rhagfyr 2022.

| GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG | |
|---|---|
| **021 - Rheoliadau Asiantaethau'r UE (Dirymiadau) 2022**<br>*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 1 Rhagfyr 2022* | |
| **Sifftio** | |
| Yn destun gwaith sifftio yn Senedd y DU? | Na |
| Gweithdrefn: | Gwneud negyddol |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | N/A |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | N/A |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | N/A |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Dim angen |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | N/A |
| Gweithdrefn | Gwneud negyddol |
| Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Anhysbys |

**Y cefndir**

Bwriedir i'r Rheoliadau gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

**Crynodeb**

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu darpariaethau deddfwriaethol yr UE sydd wedi parhau i weithredu fel rhan o gyfraith ddomestig ers diwedd y cyfnod gweithredu er gwaethaf y ffaith bod y Deyrnas Unedig wedi gadael dwy asiantaeth yr UE y maent yn ymwneud â hwy:

- Caiff **Rheoliad (CE) Rhif 1339/2008** ei ddiddymu gan nad yw'r Deyrnas Unedig bellach yn cymryd rhan yn y Sefydliad Hyfforddiant Ewropeaidd. Asiantaeth ddatganoledig o'r Undeb Ewropeaidd yw'r Sefydliad Hyfforddiant Ewropeaidd (ETF) sydd wedi'i lleoli yn Turin, yr Eidal. Mae'r ETF yn cefnogi gwledydd o amgylch yr Undeb Ewropeaidd i ddiwygio eu systemau addysg, hyfforddiant a'r

farchnad lafur i fanteisio ar botensial eu cyfalaf dynol yng nghyd-destun polisi cysylltiadau allanol yr UE. Ar hyn o bryd mae’r ETF yn gweithio gyda 29 o wledydd partner cyfagos yr UE gan gynnwys y gwledydd sy'n paratoi ar gyfer ymuno â'r UE. Roedd y DU yn ariannu ETF fel Aelod-wladwriaeth drwy ei chyfraniad i gyllideb yr UE.

- Caiff **Rheoliad (UE) Rhif 2019/128** ei ddirymu gan nad yw'r Deyrnas Unedig bellach yn cymryd rhan yn y Ganolfan Ewropeaidd ar gyfer Datblygu Hyfforddiant Galwedigaethol, a elwir yn "Cedefop". Asiantaeth yr UE yw Cedefop sy'n darparu canolfan gyfeirio ar gyfer addysg a hyfforddiant galwedigaethol, gan gefnogi’r gwaith o ddatblygu polisïau addysg a hyfforddiant galwedigaethol Ewropeaidd (VET) a chyfrannu at eu gweithredu. Mae Cedefop yn darparu ffynhonnell wybodaeth am bolisïau VET, dadansoddiadau cymharol ac arbenigedd a gesglir drwy ymchwil a rhwydweithio. Mae'n cyfrannu at ddadansoddiad a gynhelir wrth ddatblygu polisïau VET domestig a meincnodi yn erbyn polisïau mewn gwledydd eraill.

**Datganiad gan Lywodraeth Cymru**

Mae Cynghorwyr Cyfreithiol y Senedd yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 5 Rhagfyr 2022 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

**Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith ac i ba raddau y byddai'r Rheoliadau hyn yn deddfu polisi newydd mewn meysydd datganoledig.

Nid yw Cynghorwyr Cyfreithiol y Senedd o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/JMEWL/1657/22

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

08 Rhagfyr 2022

Annwyl Huw,

**Rheoliadau Asiantaethau'r UE (Dirymiadau) 2022**

Ar 27 Mehefin 2022, ysgrifennais atoch i rannu fy mwriad i i gydsynio i'r Rheoliadau uchod, er mwyn i'w darpariaethau fod yn berthnasol i Gymru. Mae'r Rheoliadau yn gwneud i ffwrdd â chyfeiriadau at asiantaethau'r UE nad oes eu hangen mwyach o lyfr statud y DU.

Rwyf nawr am roi gwybod i'r Pwyllgor bod Rheoliadau Asiantaethau'r UE (Dirymiadau) 2022 wedi'u gosod gerbron Senedd y DU o dan y weithdrefn gadarnhaol ar 1 Rhagfyr 2022, i ddod i rym ar 22 Rhagfyr 2022. Mae'r Offeryn Statudol i'w weld yn: The EU Agencies (Revocations) Regulations 2022 (legislation.gov.uk).

Mae Datganiad Ysgrifenedig wedi'i osod gerbron y Senedd yn unol â Rheol Sefydlog 30C a'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol, ac mae i'w weld yn:

https://senedd.cymru/media/g1enejjt/ws-ld15512-w.pdf

Yn gywir,

**Jeremy Miles AS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/MA-LG-3512-22

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

1 Rhagfyr 2022

Annwyl Huw

Diolch am eich llythyr dyddiedig 4 Tachwedd, ynghylch Llywodraeth Cymru yn cydsynio i is-ddeddfwriaeth gan Lywodraeth y DU.

Cyn imi droi at y materion penodol a godwyd, efallai y byddai'n ddefnyddiol pe bawn yn amlinellu ein trefniadau cyffredinol.

Ein man cychwyn yw y dylai pwerau deddfu mewn meysydd datganoledig gael eu harfer gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru yn hytrach na Llywodraeth y DU.

Wrth gwrs, bydd gweithio ar y cyd yn fuddiol weithiau, a bryd hynny byddwn yn cydweithio yn unol â chanlyniadau'r Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol, y cytunwyd arno gan bedair Llywodraeth y DU yn gynharach eleni. Roedd yr adolygiad yn cynnwys egwyddorion ar gyfer arferion gweithio Rhynglywodraethol a oedd yn seiliedig ar barch ac ymddiriedaeth o'r naill ochr a'r llall, yn ogystal â pharchu pwerau a gadwyd gan Lywodraeth y DU a Senedd y DU a chymwyseddau datganoledig Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon a'u deddfwrfeydd. Roedd y system y darparwyd ar ei chyfer gan yr Adolygiad yn darparu sail gadarnhaol ar gyfer cysylltiadau cynhyrchiol, gan hwyluso deialog lle mae safbwyntiau'n gyson â'i gilydd a mecanweithiau datrys lle nad ydynt.

O ran ymadael â'r UE, ac ers diwedd y cyfnod pontio, roedd offerynnau Llywodraeth y DU sy'n gwneud newidiadau technegol o ran gweithrediad i gyfraith yr UE a ddargedwir o fewn cylch gwaith ein Hegwyddorion ar gyfer Cywiro Diffygion mewn Deddfwriaeth Ddomestig sy'n deillio o'r UE. Roedd yr egwyddorion hynny'n adlewyrchu cytundeb y Cabinet y gallai Offerynnau Statudol y DU gywiro deddfwriaeth y DU petai'r diffygion yn dechnegol eu natur yn unig ac na fyddai unrhyw fuddiannau polisi datganoledig sylweddol mewn perygl pe bai'r diffygion yn cael eu cywiro gan Lywodraeth y DU.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

O ran Offerynnau sy’n mynd y tu hwnt i gywiro, mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i wneud penderfyniadau a allai effeithio ar wahaniaethau / cysondeb cyfreithiau ar sail cyngor fesul achos, gan gydnabod y bydd cyfiawnhad dilys weithiau dros ganiatáu i Lywodraeth y DU arfer pwerau mewn meysydd datganoledig.

Wrth ystyried cyd-destunau unigol, rwyf yn ystyried yr opsiynau o ran deddfwriaeth i Gymru yn unig yng ngoleuni’r man cychwyn a nodir uchod, a chyn cydsynio, rwyf yn ceisio sicrhau bod trefniadau llywodraethu cadarn ar waith.  Mae hyn yn cynnwys ystyried trefniadau ar lefel swyddogion, hyd at oruchwyliaeth gan fforymau Gweinidogol. Os nad yw’r trefniadau llywodraethu mor gynhwysfawr ag y byddwn yn dymuno, ond bod cydsyniad, serch hynny, yn briodol ar sail hwylustod, mae’n bolisi gan Lywodraeth Cymru i gyfyngu ar y cydsyniad fel ei fod mor gul â phosibl, a chynnwys mecanwaith adolygu addas.

**Rheoliadau Cyd-drefniadaeth y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol (Diwygio) (Cymru) 2022**

Rwyf wedi nodi sylwadau’r Pwyllgor ac yn cytuno y byddai’n arfer da cyfeirio at y pwerau y gwneir Offeryn oddi tanynt.

**Rheoliadau Plâu Planhigion (Awdurdodiadau) (Diwygio) 2022**

1. *Nodwch, os gwelwch yn dda, pryd oeddech yn gwybod gyntaf am yr angen am y Rheoliadau hyn ac, yn unol â hynny, a ellid bod wedi’u cyflwyno mewn un offeryn dwyieithog wedi’i wneud gan Weinidogion Cymru yn gynharach nag 1 Tachwedd 2022, pan ddaethant i rym.*

   Derbyniais lythyr yn rhoi gwybod i mi am y rhaglen Offerynnau Statudol (OS) sydd ar y gweill ar 14 Mehefin 2022. Bryd hynny, nid oedd unrhyw fanylion am y newidiadau eu hunain, dim ond datganiad o fwriad ydoedd.

   Mae’n annhebygol y gellid bod wedi sicrhau dull cyson rhwng gwledydd Prydain erbyn y dyddiad terfyn, sef 1 Tachwedd, pe bai’r Offeryn Statudol wedi’i gyflwyno gan Weinidogion Cymru. Mae offerynnau statudol sy’n cael eu drafftio gan Defra yn cael eu hadolygu gan fy swyddogion polisi a Gwasanaethau Cyfreithiol cyn rhoi unrhyw argymhelliad ynghylch cydsynio.

2. *Allwch chi egluro pam na fyddai rheoliadau ar wahân i Gymru: a) y ffordd fwyaf priodol o achosi’r newidiadau neu b) yn ddefnydd darbodus o adnoddau?*

   Mae’r rheoliadau Iechyd Planhigion yn arf sylfaenol ar gyfer mynd i’r afael â phlâu a chlefydau mewn planhigion, weithiau mewn argyfwng, ac mae’n bwysig cynnal dull gweithredu sy’n cael ei rannu ledled Prydain Fawr.  Ystyriais yr opsiwn o ddeddfwriaeth i Gymru’n unig, ond deuthum i’r casgliad ei bod yn fwy buddiol cydsynio i Lywodraeth y DU ddeddfu yn yr achos hwn.  Roeddwn yn credu y gellid defnyddio adnoddau’r Senedd a’r Gwasanaethau Cyfreithiol ar faterion deddfwriaethol brys eraill lle bu gwahaniaethau polisi.  Roedd y ddogfen ar Iechyd Planhigion: Fframwaith Cyffredin Dros Dro[1] yn ffactor pwysig yn y penderfyniad.

[1] Plant health: provisional common framework - GOV.UK (www.gov.uk)

3. *Allwch chi egluro pwrpas y cyfeiriad at y Rhaglen Lywodraethu? A yw'r goblygiadau i'r Rhaglen Lywodraethu yn effeithio ar p'un a yw Llywodraeth Cymru yn gwneud ei rheoliadau ei hun mewn meysydd datganoledig wrth gywiro'r llyfr statud o ganlyniad i ymadael â'r UE?*

   Cafodd y cyfeiriad at y Rhaglen Lywodraethu ei gynnwys i roi gwybod i aelodau'r pwyllgor nad yw'r newidiadau a wnaed gan y rheoliadau yn effeithio ar uchelgeisiau polisi Llywodraeth Cymru. Nid yw'r Rhaglen Lywodraethu yn effeithio ar p'un a yw Llywodraeth Cymru yn gwneud ei Rheoliadau ei hun mewn meysydd datganoledig wrth gywiro'r llyfr statud o ganlyniad i ymadael â'r UE.

**Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2022 (Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus)**

**Rheoliadau Rheoli Mercwri (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2022 (Rheoliadau Rheoli Mercwri)**

**Rheoliadau Anifeiliaid ac Iechyd Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Planhigion ac Iechyd Planhigion (Diwygio) 2022 (Rheoliadau Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Phlanhigion)**

4. *A allwch gadarnhau y byddwch yn y dyfodol o leiaf yn cynnwys dyddiad yr ohebiaeth gyda Gweinidogion y DU yn eich llythyr atom ac y byddwch, lle bo hynny'n bosibl, yn cynnwys copi o'r ohebiaeth honno?*

   Rwyf yn cadarnhau y byddaf yn y dyfodol yn cynnwys dyddiad yr ohebiaeth gyda Gweinidogion y DU yn fy llythyrau at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ac unrhyw bwyllgor perthnasol arall. Lle bo modd, byddaf yn anelu at ddarparu copi o'r ohebiaeth i'r Pwyllgorau priodol.

5. *Pan fyddwch yn cael gohebiaeth gan Weinidogion y DU yn gofyn am eich cydsyniad, a yw hyn fel arfer yn dod i law cyn neu ar ôl i'r Rheoliadau gael eu drafftio gan Lywodraeth y DU?*

   Yn gyffredinol, derbynnir gohebiaeth sy'n gofyn yn ffurfiol am fy nghydsyniad cyn i'r Rheoliadau gael eu drafftio.
   Pan fydd y rheoliadau ar ffurf ddrafft derfynol, caf gyngor gan fy swyddogion ynghylch priodoldeb cytuno arnynt. Mae fy swyddogion yn cael eu hysbysu a'u cynnwys cyn hyn er mwyn sicrhau bod y drafftio'n gywir o safbwynt Cymru a byddaf yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf ganddynt pan fo hynny'n briodol. Mewn perthynas â'r rheoliadau sy'n dod o dan yr adran hon, ysgrifennodd Gweinidogion y DU at Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin yn gofyn am gydsyniad i'r Offerynnau Statudol yr oedd angen eu gosod ym mis Hydref.

6. *A oes cytundebau rhynglywodraethol ar waith rhwng eich adran chi ac adrannau perthnasol Llywodraeth y DU mewn perthynas â chydsynio?*

   Edrychwch ar fy amlinelliad o'r sefyllfa gyffredinol o ran gweithio Rhynglywodraethol a'r broses ar gyfer ystyried cydsynio, a ddarparwyd ar ddechrau'r llythyr hwn.

   *Allwch chi egluro pam na fyddai rheoliadau ar wahân i Gymru: a) y ffordd fwyaf priodol o achosi'r newidiadau neu b) yn ddefnydd darbodus o adnoddau?*

Mewn perthynas â'r tair set o Reoliadau, ystyriais yr opsiwn o ddeddfwriaeth i Gymru'n unig, ond deuthum i'r casgliad ei bod yn fwy buddiol cydsynio i Lywodraeth y DU ddeddfu yn yr achos hwn. Roedd presenoldeb y fframweithiau cyffredin yn ffactor pwysig yn y penderfyniad hwnnw. Y fframweithiau perthnasol yw:

Ar gyfer y Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2022 (Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus) a'r Rheoliadau Rheoli Mercwri (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2022 (Rheoliadau Rheoli Mercwri) adrannau 'Approaches to Decision Making' a 'Principles of Working Together' y ddogfen ar Gemegion a Phlaleiddiaid: Fframwaith Cyffredin Dros Dro ar Gemegion a Phlaleiddiaid (htps://www.gov.uk/government/publications/dechmicals-and-pestides-provisional-framework).

Ar gyfer y Rheoliadau Anifeiliaid ac Iechyd Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Planhigion ac Iechyd Planhigion (Diwygio) 2022 (Rheoliadau Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Phlanhigion) mae fframweithiau dros dro sy'n ymwneud ag iechyd a lles anifeiliaid; iechyd planhigion; a bwyd a bwyd anifeiliaid i gyd yn berthnasol.

Ar gyfer y Rheoliadau Plâu Planhigion (Awdurdodiadau) (Diwygio) 2022, adran "UK Plant Health Concordat between the UK Government, Scottish Government, Welsh Government, and Northern Ireland Executive" y ddogfen ar Iechyd Planhigion: Fframwaith Cyffredin Dros Dro (https://www.gov.uk/government/publications/plant-health-provisional-common-framework).

**Rheoliadau Cynhyrchion Bioleiddiadol (Iechyd a Diogelwch) (Diwygio) 2022**

7. *Gan fod Chloe Smith AS wedi gadael swydd y Gweinidog ar 6 Medi 2022, a fyddech cystal ag egluro pam y bu oedi cyn hysbysu'r Pwyllgor am y cais hwn, sy'n golygu ei fod wedi cael llai o amser i ystyried y rheoliadau hyn gan eu bod wedi'u gosod ar 18 Hydref 2022, wyth diwrnod ar ôl i chi ysgrifennu?*

Derbyniais lythyr gan Chloe Smith AS, y Gweinidog dros Bobl Anabl, Iechyd a Gwaith, ar 19 Awst, yn gofyn am gydsyniad i'r Rheoliadau Bioleiddiadol. Bryd hynny, roedd yr OS yn dal ar ffurf ddrafft a dosbarthwyd fersiwn derfynol ar 7 Medi yn ystod toriad yr haf. Yn ystod y cyfnod hwn, ystyriais gyngor swyddogion a dod i benderfyniad i gydsynio i'r Rheoliadau. Fodd bynnag, oherwydd y newidiadau o ran Gweinidogion yn Llywodraeth y DU ar y pryd, nid oedd Gweinidog wedi'i neilltuo i'r portffolio Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) i ysgrifennu ato. Ar ôl i Weinidog gael ei gadarnhau'n swyddogol ar 7 Hydref, llofnodais y llythyr cydsynio at Claire Coutinho AS, Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Bobl Anabl, Iechyd a Gwaith, ar yr un diwrnod.

Mewn perthynas â chwestiwn 2, mae'r rheoliadau hyn yn gwneud newidiadau technegol i weithrediad cyfraith yr UE a ddargedwir, gan gywiro diffygion technegol eu natur ac felly maent o fewn cylch gwaith ein Hegwyddorion ar gyfer Cywiro Diffygion mewn Deddfwriaeth Ddomestig sy'n deillio o'r UE. Roedd yr egwyddorion hynny'n adlewyrchu cytundeb y Cabinet y gallai Offerynnau Statudol y DU gywiro diwygiadau o'r fath ar y sail na fyddai unrhyw fuddiannau polisi datganoledig sylweddol mewn perygl pe bai'r diffygion yn cael eu cywiro gan Lywodraeth y DU. Byddai unrhyw wyro oddi wrth ddull Prydain Fawr yn golygu y byddai gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE), sy'n gweithredu fel yr Awdurdod Cymwys ar gyfer Bioleiddiaid yng Nghymru a Lloegr, gymwyseddau cymysg.

Mewn perthynas â chwestiwn 3, cyfeiriaf at fy ateb i gwestiwn 3 uchod.

**Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) 2022**

8. *A fyddech gystal â chadarnhau pryd y gofynnodd yr Ysgrifennydd Gwladol i chi gydsynio i'r Rheoliadau hyn?*

   Ysgrifennodd y Gweinidog Gwladol dros Ffermio, Pysgodfeydd a Bwyd ar y pryd, Victoria Prentis AS, yn gofyn imi gydsynio i'r Rheoliadau hyn ar 18 Gorffennaf 2022.

9. *Mae eich llythyr yn nodi "Rwy'n cydsynio" i'r Ysgrifennydd Gwladol osod y Rheoliadau drafft. Cyhoeddwyd eich llythyr i ni y diwrnod ar ôl i'r Rheoliadau gael eu gosod. Ar ba ddyddiad y rhoesoch wybod i'r Ysgrifennydd Gwladol eich bod yn cydsynio?*

   Ysgrifennais i roi gwybod i'r Ysgrifennydd Gwladol fy mod yn cydsynio i'r Rheoliadau hyn ar 17 Hydref 2022.

10. *Pam mae Rheoliadau i Brydain Fawr yn angenrheidiol, a chithau'n dweud y byddwch yn gwneud rheoliadau cyfatebol ar gyfer Cymru?*

    Mae rheoliadau Llywodraeth y DU yn berthnasol yn gyfan gwbl i Loegr a'r Alban, ond mewn dwy ffordd y maent yn berthnasol i Gymru. Mae'r rheoliadau'n cynnwys pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol ddeddfu mewn perthynas â Chymru, ond dim ond os bydd Gweinidogion Cymru yn cydsynio h.y. y pŵer cydredol plws. Mae'r rheoliadau'n darparu mai'r Ysgrifennydd Gwladol yw'r awdurdod priodol mewn perthynas â Chymru, ond dim ond i'r graddau y mae mater yn ymwneud â swyddogaethau y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

11. *Pam mae creu swyddogaethau cydredol plws yn briodol pan fyddwch yn gwneud eich rheoliadau eich hun?*

    Ystyriwyd bod y swyddogaeth gydredol plws yn briodol am resymau polisi. Rwyf o'r farn ei bod yn briodol cael hyblygrwydd ac opsiwn i Weinidogion Cymru i gydsynio i'r Ysgrifennydd Gwladol ddeddfu dros Gymru mewn rhai amgylchiadau eithriadol. Ni all yr Ysgrifennydd Gwladol ddeddfu dros Gymru ar faterion datganoledig ond gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru; felly, nid yw'r offeryn hwn yn golygu colli unrhyw bwerau.

12. *Beth yw'r amgylchiadau eithriadol lle byddech yn cydsynio i Weinidogion y DU weithredu o dan y Rheoliadau drafft?*

    Natur polisi masnach iechyd anifeiliaid a'r cyhoedd yw y gall fod angen newidiadau deddfwriaethol ar frys, i gyfyngu ar fasnach neu ei hailagor, o ystyried mor ddeinamig yw clefydau anifeiliaid ac o gofio ein rhwymedigaethau i'n partneriaid masnachu. Gallai amgylchiadau eithriadol ar gyfer defnyddio'r swyddogaethau cydredol plws hyn gynnwys ymateb i rwymedigaethau rhyngwladol y DU, fel y rheini mewn cytundebau masnach neu wrth ddelio â chlefydau sy'n dod i'r amlwg mewn trydydd gwledydd. Mewn amgylchiadau o'r fath, efallai y bydd angen diwygio amodau iechyd mewnforio yn gyflym, er mwyn gosod neu ddileu amodau iechyd mewnforio yn gyflym mewn ymateb i newidiadau o ran y risg o glefydau. Mewn achosion o'r fath, gallai fod yn briodol cydsynio i ddefnyddio'r pwerau hyn lle ceir cytundeb trawslywodraethol o ran polisi.

Rydym yn gweithredu o fewn y Fframwaith Cyffredin dros dro ar gyfer Iechyd a Lles Anifeiliaid, a gynlluniwyd i hwyluso ffyrdd cyffredin o weithio a dulliau cyffredin, lle bo hynny'n briodol, ond gan barchu datganoli'n llwyr. Mae'r fframwaith yn caniatáu ar gyfer gwahaniaethau gyda phwyslais ar wahaniaethau anniweidiol, oherwydd bydd achosion lle mae'n briodol i Lywodraethau unigol ddefnyddio dulliau gwahanol.

Y corff sy'n gwneud penderfyniadau polisi yn y fframwaith yw'r Grŵp Polisi ar Glefydau Anifeiliaid. Pan fo'n bosibl, mae'r Grŵp yn dod i gytundeb ar lefel swyddogion ar strategaethau rheoli'r DU a Phrydain Fawr a, lle bo hynny'n briodol, yn rhoi gwybod i'r Gweinidogion perthnasol am argymhellion y swyddogion. Mae'r aelodaeth yn cynnwys y pedwar Prif Swyddog Milfeddygol a phenaethiaid polisi ym mhob llywodraeth, ochr yn ochr â phartneriaid cyflenwi fel asiantaethau llywodraeth ac arweinwyr polisi eraill y llywodraethau, a chyrff cynghori ac arbenigol (e.e. iechyd y cyhoedd). Mae'r trefniadau llywodraethu newydd hyn yn adlewyrchu'r llu o swyddogaethau newydd sydd wedi dod i ran Gweinidogion Prydain Fawr ar ôl Brexit.

13. *O gofio y bydd rheoliadau i Brydain Fawr gyfan a rheoliadau ar gyfer Cymru gyfan ar waith, sut mae hyn yn cyd-fynd ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddeddfwriaeth hygyrch?*

Cafodd Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) ac Iechyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022 eu gosod gerbron y Senedd ar 22 Tachwedd 2022 i ddiwygio Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011 a gwneud y newidiadau angenrheidiol i Gyfarwyddebau perthnasol yr UE, at ddibenion y Rheoliadau 2011 hynny. Bydd y Rheoliadau hyn a wneir gan Weinidogion Cymru, yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd, yn cynnwys nifer o swyddogaethau deddfwriaethol i Weinidogion Cymru a'm bwriad yw y bydd Gweinidogion Cymru yn arfer y swyddogaethau hynny i ddeddfu mewn perthynas â Chymru. Bydd y Rheoliadau hyn, yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd, yn cael eu llunio'n ddwyieithog i'r graddau y maen hynny'n ymarferol. Fodd bynnag, gan fod llawer iawn o'r testun yn y Rheoliadau drafft yn addasu nifer o Gyfarwyddebau'r UE, bydd yr addasiadau hynny'n cael eu gwneud yn Saesneg yn unig, gan nad yw'r Cyfarwyddebau eu hunain ar gael yn Gymraeg.

Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dibynnir ar y pwerau sydd yn rheoliadau'r Ysgrifennydd Gwladol, o'u cymharu â'r rheini sydd yn Rheoliadau drafft Gweinidogion Cymru. Mae'n anffodus, i'r graddau y mae'r rheoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn berthnasol i Gymru, na fyddant ar gael yn ddwyieithog. Fodd bynnag, yng ngoleuni'r ffaith nad yw'r addasiadau i'r Cyfarwyddebau yn cael eu gwneud yn ddwyieithog yn ein Rheoliadau ni ein hunain, ynghyd â'r bwriad rwyf wedi'i nodi y bydd y pwerau hyn ar gael fel adnodd eilaidd defnyddiol yn unig, rwyf o'r farn fod y dull gweithredu yn briodol.

14. *Yr ydych cyn hyn wedi cyfiawnhau cydsynio i reoliadau ar sail sicrhau llyfr statud cydlynol a chyson gyda'r rheoliadau'n hygyrch mewn un offeryn ond, ar gyfer y Rheoliadau hyn, mae'n ymddangos eich bod yn cymryd safbwynt gwahanol. Allwch chi esbonio'r rheswm am hynny os gwelwch yn dda?*

Mewn perthynas yn arbennig ag Ymadael â'r UE, rydym, yn unol â'n Hegwyddorion ar gyfer Cywiro Diffygion mewn Deddfwriaeth Ddomestig sy'n deillio o'r UE, wedi cydsynio i gywiriadau gael eu gwneud o fewn Offerynnau Statudol y DU os mai diffygion technegol eu natur yn unig oeddynt ac na fyddai unrhyw fuddiannau polisi datganoledig sylweddol mewn perygl pe bai'r diffygion yn cael eu cywiro gan Lywodraeth y DU.

Fodd bynnag, o ran y Rheoliadau hyn, nid yw Gweinidogion Cymru ond wedi cydsynio iddynt i'r graddau y maent yn darparu i'r Ysgrifennydd Gwladol gael pŵer yn yr arddull cydredol plws. Mae rheoliadau'r Ysgrifennydd Gwladol yn addasu'r Cyfarwyddebau perthnasol at ddibenion swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol. Bydd Gweinidogion Cymru, yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd, yn deddfu yn Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) ac Iechyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022, i greu swyddogaethau deddfwriaethol Gweinidogion Cymru. Mae hyn wedi golygu bod y ddwy set o reoliadau yn diwygio'r Cyfarwyddebau perthnasol ar wahân. Fodd bynnag, ymgorfforir yr addasiadau i bob pwrpas yn eu Rheoliadau perthnasol, ac felly mae hyn yn briodol.

Cofion,



**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Lesley Griffiths AS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru,
a'r Trefnydd

4 Tachwedd 2022

Annwyl Lesley

Llywodraeth Cymru yn rhoi cydsyniad ar gyfer is-ddeddfwriaeth Llywodraeth y DU

Yn ein hadroddiad blynyddol ar gyfer 2021/22, a gyhoeddwyd gennym fis diwethaf, fe wnaethom nodi y byddem yn ceisio cael mwy o eglurder gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â rhoi cydsyniad i wneud is-ddeddfwriaeth mewn meysydd datganoledig (gweler paragraffau 118-119 a 128).

Yn ein cyfarfodydd ar 10, 17 a 24 Hydref 2022 buom yn ystyried cyfres o hysbysiadau i'r Pwyllgor a'r Senedd ynghylch bwriad Llywodraeth Cymru i gydsynio, neu gadarnhad ei bod wedi cydsynio, i Lywodraeth y DU wneud is-ddeddfwriaeth mewn meysydd datganoledig.

Mae gennym nifer o sylwadau yr hoffem eu gwneud mewn perthynas â'r hysbysiadau hyn.

Rheoliadau Cyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol (Diwygio) 2022

Roedd eich llythyr ar 3 Hydref 2022 yn nodi y byddai'r Rheoliadau hyn yn cael eu gosod yn Senedd y DU ar 8 Tachwedd 2022 ac rydym yn croesawu'r hysbysiad ymlaen llaw a ddarparwyd sy'n caniatáu inni ymateb cyn y dyddiad hwn.

Am resymau tryloywder ac er mwyn ei nodi ar gofnod, credwn y dylai'r llythyr fod wedi cynnwys manylion am Ddeddf y DU y mae'r Rheoliadau i'w gwneud oddi tani. Rydym hefyd yn nodi eich bod yn cydsynio i'r Rheoliadau "am resymau effeithlonrwydd a hwylustod, ac i sicrhau cysondeb a chydlyniad ar y llyfr statud." Nododd ein Pwyllgor rhagflaenol fod "diffyg hygrededd yn y modd y mae'r Llywodraeth yn cyfiawnhau hyn ar sail eglurdeb a hygyrchedd" yng nghyd-destun datganoli ac


Senedd Cymru
Welsh Parliament

ymdeimlad ehangach bod llyfr statud Cymru yn cael ei wneud yn llai hygyrch. Er ein bod yn cydnabod bod amgylchiadau lle y gallai fod yn briodol i Lywodraeth y DU wneud Rheoliadau (sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr) i gywiro Rheoliadau, rydym yn rhannu'n fras y teimladau a fynegwyd gan y Pwyllgor a'n rhagflaenodd ac yn tynnu eich sylw atynt.

## Rheoliadau Plâu Planhigion (Awdurdodiadau) (Diwygio) 2022

Mae eich llythyr ar 6 Hydref 2022 yn nodi eich bod wedi cydsynio i'r rheoliadau penderfyniad negyddol hyn a osodwyd yn Senedd y DU ar 3 Hydref 2022.

Yn ogystal â chydsynio i'r Rheoliadau ar sail sicrhau "llyfr statud cydlynol a chyson gyda'r rheoliadau'n hygyrch mewn un offeryn", rydych yn nodi:

> *"...mae angen cyflwyno'r ddeddfwriaeth hon ar frys, er mwyn diogelu bioddiogelwch yng Nghymru. Rwy'n ystyried nad deddfu ar wahân i Gymru fyddai'r ffordd fwyaf priodol o weld effaith y newidiadau angenrheidiol, yn enwedig o ystyried natur frys y Rheoliadau, ac ni fyddai'n ddefnydd doeth o adnoddau Llywodraeth Cymru o ystyried blaenoriaethau pwysig eraill.*
>
> *Nid oes gan y Rheoliadau hyn oblygiadau ar gyfer y Rhaglen Lywodraethu..."*.

Byddwn yn ddiolchgar o gael ymatebion i'r cwestiynau a ganlyn.

1. A wnewch chi nodi pryd oeddech chi'n gwybod yn gyntaf am yr angen am y Rheoliadau hyn ac yn unol â hynny, a ellid bod wedi eu cyflwyno mewn un offeryn dwyieithog a wnaed gan Weinidogion Cymru yn gynharach nag 1 Tachwedd 2022, pan ddaethant i rym.

2. A allwch chi egluro pam nad rheoliadau Cymreig ar wahân fyddai: a) y ffordd fwyaf priodol o wneud y newidiadau neu b) yn gwneud y defnydd doeth o adnoddau?

**1. Y Cynulliad Partneriaeth Seneddol ........ 2**

Rôl y Senedd ........ 3

**2. Yr ail gyfarfod ........ 4**

Gogledd Iwerddon ........ 4

Gweithredu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu ........ 5

Cydweithrediad ym maes ynni ........ 6

Y berthynas yn y dyfodol ........ 6

Hawliau dinasyddion, artistiaid teithiol a chydweithrediad diogelwch ac amddiffyn ........ 7

**3. Rôl y Senedd ........ 9**

# 1. Y Cynulliad Partneriaeth Seneddol

Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE yn darparu ar gyfer sefydlu Cynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE fel rhan o'i strwythur llywodraethu. Bydd y strwythur llywodraethu hwn yn goruchwylio'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu a holl gytundebau'r DU a'r UE yn y dyfodol.

Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu'n darparu y dylai'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol gynnwys aelodau o Senedd Ewrop a Senedd y DU. Mae gan y Cynulliad Partneriaeth Seneddol ran bwysig i'w chwarae o ran darparu trosolwg ar weithredu'r cytundeb.

Dyma'r unig gorff a all fynd ati ar y cyd i ddwyn Cyngor Partneriaeth y Cytundeb Masnach a Chydweithredu i gyfrif. Y Cyngor Partneriaeth yw'r corff sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am y Cytundeb Masnach a Chydweithredu. Mae'n cynnwys cynrychiolwyr y Comisiwn Ewropeaidd a Gweinidogion Llywodraeth y DU.

O ran y Cynulliad Partneriaeth Seneddol:

- gall ofyn am wybodaeth am y Cytundeb Masnach a Chydweithredu a chytundebau rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol gan y Cyngor Partneriaeth, a rhaid i'r corff hwnnw ddarparu'r wybodaeth;
- rhaid iddo gael gwybod am benderfyniadau ac argymhellion y Cyngor Partneriaeth; a
- gall wneud argymhellion i'r Cyngor Partneriaeth.

Mae'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol hefyd wedi mabwysiadu ei rheolau gweithdrefnol ei hun ers ei sefydlu sy'n nodi sut y bydd yn gweithredu'n ymarferol.

Caiff y Cynulliad Partneriaeth Seneddol ei gadeirio ar y cyd gan gynrychiolwyr o Senedd y DU a Senedd Ewrop. Y cyd-gadeiryddion presennol yw Syr Oliver Heald AS a Natalie Loiseau ASE. Mae rhestr lawn o ddirprwyaethau seneddol y DU a'r UE ar gael ar eu gwefannau priodol.

Mae ffeithlun sy'n nodi ble mae'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol fel rhan o'r fframwaith llywodraethu trosfwaol i'w weld yn y canllaw hwn gan Ymchwil y Senedd.

## Rôl y Senedd

Nid yw'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn darparu rôl ffurfiol ar gyfer deddfwrfeydd datganoledig y DU na rhanbarthau a dinasoedd yr UE na chymdeithas sifil? yng ngwaith y Cynulliad Partneriaeth Seneddol. Fodd bynnag, o ystyried y daw rhannau helaeth o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu o fewn meysydd cymhwysedd datganoledig neu'n cael effaith arnynt, mae'r rheolau gweithdrefnol a fabwysiadwyd gan seneddau'r DU a'r UE yn caniatáu i'r deddfwrfeydd datganoledig a sefydliadau eraill yr UE gael eu gwahodd i gyfarfodydd fel sylwedyddion.

Mae statws sylwedydd yn golygu nad oes gan gynrychiolwyr o'r deddfwrfeydd datganoledig hawliau siarad cyffredin yn ystod sesiynau'r Cyfarfod Llawn nac unrhyw hawliau pleidleisio.

Gwahoddwyd y Senedd i anfon dau o'i Haelodau i ddau gyfarfod cyntaf y Cynulliad Partneriaeth Seneddol. Mae Fforwm Cadeiryddion y Senedd wedi penderfynu, o ystyried eu cylchoedd gwaith priodol, y dylai'r Senedd gael ei chynrychioli gan Gadeirydd neu Aelod o'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a Chadeirydd neu Aelod o Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

# 2. Yr ail gyfarfod

Fe wnaeth gweithrediad y Cynulliad Partneriaeth Seneddol fel fforwm ystyrlon newid yn sylweddol yn ystod yr ail gyfarfod, a gynhaliwyd ar 7-8 Tachwedd 2022.

Roeddem yn gallu cymryd rhan lawn yn y trafodaethau pwysig a gynhaliwyd yn y sesiynau gweithgor a siarad yn ystod sesiwn y Cyfarfod Llawn am sut y gallai'r deddfwrfeydd datganoledig a chymdeithas sifil Ewropeaidd gymryd rhan yng ngwaith y Cynulliad Partneriaeth Seneddol.

Mae'r agenda yn darparu manylion llawn y siaradwyr a'r sesiynau. Mae recordiadau o ffrwd we trafodion y Cyfarfod Llawn dros y deuddydd ar gael hefyd.

## Gogledd Iwerddon

Er bod Protocol Gogledd Iwerddon yn rhan o'r Cytundeb Ymadael ac nid y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, mae'r angen i ddod o hyd i ateb wedi'i negodi i'r materion y mae Protocol Gogledd Iwerddon yn eu codi wedi dominyddu trafodaethau holl sesiynau'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol. Roedd yn galonogol bod Aelodau Cynulliad Gogledd Iwerddon wedi gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod i nodi drostynt eu hunain y materion sy'n wynebu Gogledd Iwerddon.

Fe wnaeth Is-lywydd y Comisiwn Ewropeaidd Šefčovič a Gweinidog Ewrop Llywodraeth y DU, Leo Doherty, roi diweddariad ar y trafodaethau parhaus i geisio datrys y materion sy'n ymwneud â'r Protocol. Fe wnaethant nodi bod naws adeiladol i'r trafodaethau. Dywedodd yr Is-Lywydd Šefčovič mai'r rheswm dros yr anghytundeb oedd 'gwiriadau bach iawn yn erbyn dim gwiriadau'. Galwodd am dynnu'n ôl y Bil Protocol Gogledd Iwerddon, sy'n mynd drwy Senedd y DU ar hyn o bryd. Gofynnodd i aelodau dirprwyaeth y DU gydnabod na fu'n hawdd i'r UE fwrw ymlaen â'r trafodaethau tra bod y Bil yn parhau i fynd drwy Senedd y DU.

Dywedodd y Gweinidog Doherty ei bod yn amlwg bod y Protocol wedi achosi 'problemau' economaidd a gwleidyddol yng Ngogledd Iwerddon ond bod Llywodraeth y DU wedi bod yn cynnal trafodaethau adeiladol gyda'r UE i ddod o hyd i ddatrysiad. Dywedodd y bydd Bil Protocol Gogledd Iwerddon yn parhau i

fynd drwy Senedd y DU ond na fydd yn cael ei gyflymu. Pwysleisiodd awydd Llywodraeth y DU i ddod o hyd i ganlyniad wedi'i negodi.

Mynegodd Aelodau'r ddwy ddirprwyaeth yr angen i ddod o hyd i ddatrysiadau pragmatig ac wedi'u negodi ar fyrder i'r materion sy'n ymwneud â'r Protocol, gan gynnwys yr angen i fynd i'r afael â'r diffyg democrataidd yng Ngogledd Iwerddon ac i gynnwys Aelodau Cynulliad Gogledd Iwerddon a'i dinasyddion yn y trafodaethau.

## Gweithredu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu

Fe wnaeth y Cynulliad Partneriaeth Seneddol drafod materion cyffredinol ynghylch gweithredu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu. Nododd yr Aelodau sawl maes lle mae cefnogaeth ar gyfer cydweithredu dyfnach rhwng y DU a'r UE, gan gynnwys llawer o feysydd o ddiddordeb i'r Senedd. Mae'r rhain yn cynnwys cydweithredu ar ymchwil a datblygu, diogelwch ynni, newid hinsawdd a'r trawsnewidiad gwyrdd, symudedd myfyrwyr a phobl ifanc a chydnabod cymwysterau proffesiynol.

Mae'r Gweinidog Doherty a'r Is-lywydd Šefčovič yn cytuno bod strwythurau llywodraethu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu'n gweithio'n dda ar y cyfan.

Nododd y Gweinidog Doherty feysydd lle mae cynnydd wedi'i wneud, fel ym maes ynni a chytundeb i gydnabod cymwysterau pensaernïaeth ar y ddwy ochr. Fodd bynnag, dywedodd hefyd fod Llywodraeth y DU yn credu bod angen 'cyflymu' y broses o weithredu rhai elfennau o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu. Yn benodol, hoffai Llywodraeth y DU weld cynnydd pellach ar gyfranogiad y DU yn rhaglenni cyllid yr UE, ar leihau rhwystrau i fusnesau'r DU i gofrestru ar gyfer TAW ar gyfer gwerthiannau ar-lein yn yr UE a thrawsyrru ynni.

Dywedodd yr Is-lywydd Šefčovič fod cynnydd yn cael ei wneud mewn llawer o feysydd fel pysgodfeydd a chymdeithas sifil. Fodd bynnag, dywedodd fod yr UE yn rhoi sylw manwl i sut mae'r DU yn cadw at ymrwymiadau tegwch yn y farchnad yn y Cytundeb Masnach a Chydweithredu. Ailadroddodd farn yr UE nad yw'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn cymryd lle aelodaeth o Farchnad Sengl yr UE, ac na all fod ychwaith. Dywedodd fod y DU yn rhydd i ymwahanu oddi wrth yr UE ond y bydd hyn yn arwain at fwy o wrthdaro a chostau masnachu uwch.

Ailadroddodd yr Is-lywydd Šefčovič farn y Comisiwn Ewropeaidd bod cysylltiad sylfaenol rhwng gweithredu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu a gweithrediad llawn y DU o'r Cytundeb Ymadael, gan gynnwys Protocol Gogledd Iwerddon.

## Cydweithrediad ym maes ynni

Mabwysiadodd y Cynulliad Partneriaeth Seneddol ei argymhelliad cyntaf i'r Cyngor Partneriaeth ar gydweithredu ym maes ynni. Mae'r argymhelliad yn dangos bwriad y Cynulliad Partneriaeth Seneddol i ddefnyddio'r pwerau a ddarparwyd iddo o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu i ddwyn y Cyngor Partneriaeth i gyfrif.

Wrth wraidd yr argymhelliad mae cefnogaeth ddiwyro aelodau'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol i Wcráin a'r angen i ymateb ar frys i'r argyfwng ynni a grëwyd gan ymosodiad Rwsia ar Wcráin.

Mae'r argymhelliad:

- Yn nodi'r angen hanfodol i'r UE a'r DU gydweithredu mor agos â phosibl i sicrhau cyflenwad diogel a gweithrediad effeithiol y farchnad ynni yn ystod gaeafau 2022-23 a 2023-24;
- Yn galw am adeiladu rhyng-gysylltyddion pellach rhwng y DU a'r UE;
- Yn galw ar y ddwy ochr i lunio datrysiadau pendant i sicrhau trefniadau masnachu trydan mwy effeithlon;
- Yn galw am gymorth ar gyfer prosiectau ar y cyd rhwng y DU a'r UE i hyrwyddo ynni adnewyddadwy ac, yn benodol, i fwrw ymlaen ag ymrwymiadau a wnaed i ddatblygu ynni adnewyddadwy ar y môr;
- Yn galw am fabwysiadu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y DU a grŵp Cydweithrediad Ynni Môr y Gogledd cyn gynted â phosibl[1].

Roedd cefnogaeth i gydweithio pellach ym maes sicrwydd ynni, cydweithredu ar newid hinsawdd a'r trawsnewidiad i ynni adnewyddadwy yn amlwg yn nhrafodaethau'r Cyfarfod Llawn. Fe wnaeth Llywodraeth y DU, Comisiwn yr UE a chynrychiolwyr groesawu camau i lofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y DU a Grŵp Cydweithrediad Ynni Môr y Gogledd.

## Y berthynas yn y dyfodol

Nododd aelodau'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol sawl maes lle mae diddordeb cyffredin mewn cydweithredu pellach. Mae llawer o'r rhain mewn meysydd sydd o bwys i Gymru. Fodd bynnag, nododd holl siaradwyr y Cyfarfod Llawn fod angen

[1] Mae Grŵp Cydweithredu Ynni Môr y Gogledd yn dod ag wyth o Aelod-wladwriaethau'r UE â Norwy ynghyd i drafod datblygu ynni adnewyddadwy a gridiau ar y môr ym Môr y Gogledd.

ailadeiladu ymddiriedaeth rhwng y ddwy ochr cyn bod modd cynnal trafodaeth fanylach ar feysydd cydweithredu pellach.

Pwysleisiodd Llysgennad yr UE i'r DU ar y pryd, João Vale del Almeida, a'r Dirprwy Weinidog dros Faterion Ewropeaidd, Marek Havrda, a oedd yn cynrychioli Llywyddiaeth Gweriniaeth Tsiec ar yr UE, fod datrys y materion sy'n ymwneud â Phrotocol Gogledd Iwerddon a gweithredu'r holl gytundebau rhyngwladol rhwng yr Undeb Ewropeaidd yn llawn yn ofynnol cyn bod modd cydweithio'n ddyfnach ar feysydd eraill. Fodd bynnag, dywedodd y ddau, os gellir datrys y materion sy'n ymwneud â'r Protocol, yna mae cefnogaeth gan yr UE ar gyfer cydweithredu mewn nifer o feysydd.

Croesawodd nifer o siaradwyr gyfranogiad y DU yng nghynllun newydd y Gymuned Wleidyddol Ewropeaidd. Mae'r cynllun yn dod ag arweinwyr ynghyd o 44 o wledydd Ewropeaidd, gan gynnwys 27 Aelod-wladwriaeth yr UE, gwladwriaethau Gorllewin y Balcanau, y DU, gwladwriaethau EFTA, yr Wcráin, Georgia, Moldofa, Armenia, Azerbaijan a Thwrci.

## Hawliau dinasyddion, artistiaid teithiol a chydweithrediad diogelwch ac amddiffyn

Roedd y materion hyn yn sail i drafodaethau mewn cyfres o weithgorau y buom yn cymryd rhan lawn ynddynt. Fe wnaethom ni godi materion a nodwyd gan waith Pwyllgorau'r Senedd. Yn benodol, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol.

Cytunodd pob un o'r gweithdai ar gyfres o gasgliadau a chanlyniadau y cytunodd aelodau'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol fyddai'n cael eu rhannu gyda'r Cyngor Partneriaeth.

Canlyniadau hawliau dinasyddion:

-Ni ddylai fod unrhyw ostyngiad mewn hawliau i ddinasyddion, gan nodi'r diffyg democrataidd sy'n codi gydag angen penodol i ganolbwyntio ar ddinasyddion yng Ngogledd Iwerddon a'r heriau y maent yn eu hwynebu;

-Rydym yn nodi bod anawsterau'n parhau o ran gweithredu'r cynllun preswylio'n sefydlog i ddinasyddion yr UE, gan gynnwys y nifer a'r ansicrwydd i'r rhai sydd â statws rhagsefydlog, ymgysylltu â'r broses ddigidol a'r diffyg tystiolaeth ffisegol o statws; ac rydym yn gwahodd y Cyngor Partneriaeth i roi ei ddadansoddiad ei hun o'r cynllun preswylio'n sefydlog presennol.

-Nodi a chroesawu gwaith yr Awdurdod Monitro Annibynnol yn y DU; a chymharu hyn â'r diffyg cefnogaeth i sefydliadau sy'n eiriol dros ddinasyddion Prydeinig yn yr Aelod-wladwriaethau.

-Rydym yn nodi bod pobl o genedligrwydd gwahanol yn cael eu trin yn wahanol gan y DU wrth wneud cais am fisas gwaith, ac yn benodol, rydym yn gwahodd y Cyngor Partneriaeth i nodi a yw wedi ystyried cynllun symudedd yn y dyfodol ar gyfer pobl ifanc rhwng y DU a'r UE.

Artistiaid teithiol

- Mae diffyg cytundeb ynghylch artistiaid teithiol yn y Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn creu problemau, yn enwedig i artistiaid ifanc a newydd;

-Dylai'r Cyngor Partneriaeth annog yr UE a'r DU i negodi cytundeb cynhwysfawr i ganiatáu i artistiaid deithio'n rhydd yn yr UE a'r DU;

-Yn y cyfamser, dylai'r Cyngor Partneriaeth edrych ar y camau y gellir eu cymryd nawr i leihau'r beichiau y mae'r rheolau presennol yn eu creu.

Cydweithrediad ar amddiffyn a diogelwch

- Gydag ymosodiad Rwsia ar Wcráin yn rhoi rhybudd mawr ym maes diogelwch, sut y bydd y DU a'r UE yn ystyried sut mae angen i'w perthynas a'u cydweithrediad esblygu i ystyried hyn a sicrhau bod Wcráin yn cael y cymorth sydd ei angen arni?

-Dylid cynnal deialog systematig fwy rheolaidd ar faterion o ddiddordeb strategol i'r DU a'r UE, a gwahodd y Cyngor Partneriaeth i ystyried sut y gellid cyflawni hyn, er enghraifft cymryd Pwyllgor Masnach a Thechnoleg yr UE/UDA fel templed a'i ymestyn i fformat teirochrol gyda'r DU;

Y camau ymarferol y gall y DU a'r UE eu cymryd o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu i wella deialog a chydweithrediad gweithredol yn erbyn bygythiadau hybrid eang, yn enwedig seiberdroseddu, er enghraifft drwy gyfranogiad y DU mewn prosiectau PESCO perthnasol.

# 3. Rôl y Senedd

Roedd ymgysylltiad aelodau'r deddfwrfeydd datganoledig yn nhrafodion yr ail gyfarfod hwn o'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol yn llawer gwell. Mae angen gwneud gwaith nawr i ymgorffori'r dulliau gweithredu hyn mewn cyfarfodydd yn y dyfodol a gwneud y gorau o'r cyfleoedd ymgysylltu a chraffu y mae hyn yn eu cynnig i'r Senedd.

Nid yw Aelodau o'r Senedd yn aelodau llawn o ddirprwyaeth y DU ar hyn o bryd. Nid oes gennym hawliau siarad ffurfiol yn ystod sesiynau'r Cyfarfod Llawn ac nid oes gennym unrhyw hawliau pleidleisio.

Fodd bynnag, roeddem yn gallu cymryd rhan lawn yn y trafodaethau gweithgor yn ystod yr ail gyfarfod, ac roedd sesiwn y Cyfarfod Llawn yn cynnwys eitem agenda ffurfiol ar ymgysylltiad y deddfwrfeydd datganoledig a chymdeithas sifil Ewropeaidd yng ngwaith y Cynulliad Partneriaeth Seneddol.

Yn ystod yr eitem hon ar yr agenda, fe wnaethom ni nodi pwysigrwydd y Cytundeb Masnach a Chydweithredu i Gymru, y cyfrifoldebau sydd gan Lywodraeth Cymru a'r Senedd o ran ei roi ar waith mewn meysydd datganoledig a pha mor ddifrifol y mae'r Senedd wedi mynd i'r afael â'r dasg hon yn ystod y Chweched Senedd. Gwnaethom achos cadarnhaol dros gynnwys y deddfwrfeydd datganoledig yng ngwaith y Cynulliad Partneriaeth Seneddol.

Gyda'i gilydd, roedd y ddwy fenter hyn yn hynod o bwysig ar gyfer datblygu ymhellach y cydweithrediad rhwng y deddfwrfeydd datganoledig a'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol. Rydym yn gobeithio y caiff y cynnydd hwn ei gadarnhau mewn sesiynau yn y dyfodol a'i raglen waith wrth iddi ddatblygu.

Er bod y datblygiadau hyn i'w croesawu, gellid gwneud mwy o waith i ymgorffori cyfraniad y deddfwrfeydd datganoledig a sefydliadau eraill yr UE yng ngwaith y Cynulliad Partneriaeth Seneddol ac ymgysylltu'n well â rhanddeiliaid o Gymru yn rôl y Senedd.

Rydym yn gobeithio bod y gwaith o lunio'r adroddiad hwn yn ddechrau ymgysylltu pellach rhwng y Cynulliad Partneriaeth Seneddol a busnes a

phwyllgorau'r Senedd. Rydym yn gobeithio y bydd rhannu'r crynodeb trafodion hwn, yn ogystal â helpu i graffu ar lywodraethau a gweithredu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu, hefyd yn annog Aelodau'r Senedd a phwyllgorau i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu rhwng y Senedd ac aelodau'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol.

Mae wedi bod yn anoddach i sefydliadau cymdeithas sifil Cymru gael cyfleoedd i ymgysylltu a chydweithio â chyrff cyfatebol Ewropeaidd ers Brexit. Rydym yn gobeithio datblygu ymgysylltiad gwell â rhanddeiliaid Cymru ar waith y Cynulliad Partneriaeth Seneddol.

Mae'n bosibl y bydd datblygiadau diweddar, fel y Dystysgrif Perfformiad Ynni a themâu a ddeilliodd o ail gyfarfod y Cynulliad Partneriaeth Seneddol, yn cyfiawnhau ystyried sesiwn graffu ar y cyd o bwyllgorau'r Senedd sy'n gweithio ar faterion y DU a'r UE gyda Gweinidog y DU.  Gellid hefyd ystyried ymgysylltu ar y cyd â sefydliadau'r UE.

Yn benodol, er mwyn datblygu'r berthynas rhwng y Senedd a'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol ymhellach, rydym yn argymell:

**1.** Bod y gwelliannau a wnaed i gyfranogiad y deddfwrfeydd datganoledig yng nghyfarfodydd ffurfiol y Cynulliad Partneriaeth Seneddol bellach yn cael eu gwreiddio fel arfer gwaith cyffredin;

**2.** Bod ystyriaeth yn parhau i gael ei rhoi gan Swyddfa'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol i'r deddfwrfeydd datganoledig allu gymryd rhan yn nhrafodaethau'r Cyfarfod Llawn ar feysydd cymhwysedd datganoledig;

**3.** Bod cynrychiolwyr y Senedd a phwyllgorau perthnasol y Senedd yn cydweithio i ddatblygu perthynas anffurfiol ag aelodau dirprwyaethau y DU a'r UE y tu allan i gyfarfodydd ffurfiol y Cynulliad Partneriaeth Seneddol ar feysydd o ddiddordeb cyffredin;

**4.** Bod adroddiadau ar ganlyniadau sesiynau'n cael eu rhannu fel mater o drefn a'u dwyn at sylw pwyllgorau perthnasol y Senedd a Llywodraeth Cymru.

**5.** Bod mecanweithiau'n cael eu datblygu i ymgysylltu â chymdeithas sifil Cymru ar waith y Senedd ar y Cynulliad Partneriaeth Seneddol - a hynny cyn y cyfarfodydd ffurfiol i lywio'r cyfraniadau a wneir gan aelodau'r Senedd ac ar ôl cyfarfodydd i roi adborth ar drafodion a'r ymatebion a gafwyd i faterion blaenoriaeth.

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1SN

7 Rhagfyr 2022

Annwyl Huw,

Diolch am eich llythyr ar 25 Tachwedd am sesiwn dystiolaeth y pwyllgor ddydd Llun 21 Tachwedd am Fil Amaethyddiaeth (Cymru).

Rwyf wedi ystyried cwestiynau pellach y pwyllgor yn ofalus ac er mwyn eich helpu i ystyried y Bil rwyf wedi darparu'r wybodaeth yn yr atodiad sydd ynghlwm â'r llythyr hwn.

Cofion,

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain ar oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Bydd unrhyw ohebiaeth sy'n dod i law yn y Gymraeg yn cael ei ateb yn y Gymraeg ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi cyn ymateb.

**Atodiad: Ymateb i gwestiynau pellach gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar Fil Amaethyddiaeth (Cymru) am dystiolaeth - Rhag 22**

| **1. A fyddech cystal â nodi, ar gyfer pob pŵer gwneud rheoliadau yn y Bil, pryd yr ydych yn bwriadu defnyddio'r pŵer hwnnw gyntaf i wneud y rheoliadau perthnasol?** |
|---|
| Oherwydd rhai o gymhlethdodau'r darpariaethau, penderfynwyd wrth ddrafftio'r Bil y byddai rhai darpariaethau'n cychwyn yn awtomatig ac y byddai rhai’n cychwyn drwy Orchymyn.<br><br>Ein bwriad yw cychwyn y rhai drwy Orchymyn ddeufis ar ôl rhoi’r Cydsyniad Brenhinol (ynghyd â'r rhan fwyaf o'r darpariaethau awtomatig), felly ni fydd gwahaniaeth o ran amseru, dim ond y cyfrwng ar gyfer eu cychwyn.<br><br>Mae'r darpariaethau sy’n ymwneud â Rheoli Tir yn Gynaliadwy ("SLM"), Pŵer Gweinidogion Cymru i Ddarparu Cymorth, Pwerau i Addasu Deddfwriaeth sy’n ymwneud â Chymorth Ariannol a Chymorth Arall, Tenantiaethau Amaethyddol a Bywyd Gwyllt yn dod i rym ddeufis ar ôl rhoi’r Cydsyniad Brenhinol i’r Bil.<br><br>Bydd pob darpariaeth arall yn y Bil (megis casglu a rhannu data) yn dod i rym drwy Orchymyn cychwyn ar wahân.<br><br>Daw rhai darpariaethau yn Rhan 4 sy'n ymwneud â Choedwigaeth i rym y diwrnod ar ôl dyddiad rhoi’r Cydsyniad Brenhinol i’r Bil at ddiben gwneud rheoliadau o dan adran 32 o Ddeddf 1967. Daw’r darpariaethau coedwigaeth eraill i rym drwy Orchymyn cychwyn ar wahân.<br><br>Mae nifer o bwerau i wneud rheoliadau yn y Bil sy’n cael eu disgrifio isod:<br><br>**Rhan 1 – Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM):**<br><br>Adran 6(10) – pŵer i ddiwygio adran 6(9), sy'n diffinio'r "cyfnod adrodd" ar gyfer adroddiadau SLM. Daw cyfnod adrodd yr adroddiad cyntaf i ben ar 31 Rhagfyr 2025 a chyhoeddir adroddiadau dilynol bob pum mlynedd wedi hynny. Nid oes cynlluniau ar y gweill i ddiwygio cyfnod adrodd SLM. Gellir defnyddio'r pŵer, er enghraifft, i alinio â'r pŵer i ddarparu Adroddiad ar Effaith y Cymorth (adran 13) pe bai anghysondeb o ran amser.<br><br>**Rhan 2 Pennod 1 - Pŵer i Ddarparu darpariaethau Cymorth**<br><br>Adran 8(4) – pŵer i ddiwygio'r rhestr o ddibenion. Nid oes unrhyw gynlluniau ar y gweill i ddiwygio’r rhestr o ddibenion. Fodd bynnag, ar ôl gwerthuso'r cymorth a |

ddarperir, efallai y gwelir nad yw'r dibenion, neu rai ohonynt, yn ateb eu diben mwyach.  Os felly, os oes angen, gellid defnyddio'r pŵer gwneud rheoliadau i ychwanegu diben, dileu diben neu newid disgrifiad diben ar y rhestr.

Adran 10(1) – Cyhoeddi gwybodaeth am gymorth. Nid oes dyddiad wedi'i bennu ar gyfer pryd y caiff y pŵer hwn ei ddefnyddio gyntaf.

Adran 11(1) – pŵer i wneud darpariaeth ynghylch cadarnhau pwy sy'n gymwys am gymorth (a materion eraill). Nid oes dyddiad wedi'i bennu ar gyfer pryd y caiff y pŵer hwn ei ddefnyddio gyntaf.

Adran 13(7) – Pŵer i ddiwygio cyfnod adrodd yr Adroddiad Effaith yn adran 13(6). Nid oes cynlluniau ar y gweill i ddefnyddio'r pŵer hwn. Mae darpariaethau'r Adroddiad Effaith eisoes yn darparu ar gyfer cyfnod adrodd cyntaf estynedig sy'n dod i ben ar 31 Rhagfyr 2029 a phob pum mlynedd wedi hynny i gyd-fynd â chyfnod adrodd SLM. Gellid eu defnyddio, er enghraifft, pe bai anghysondeb o ran amseru â'r adroddiad SLM.

**Rhan 2 Pennod 2 - pwerau i addasu deddfwriaeth sy'n ymwneud â chymorth ariannol a chymorth arall**

Fel yr wyf wedi'i nodi yng nghwestiwn 2**,** nid yw'n fwriad gennym wneud newidiadau nes y gallwn brofi bod system newydd wedi'i chynllunio'n ddigonol, ein bod wedi cynnal yr asesiadau effaith perthnasol a'n bod yn hyderus ei bod yn weinyddol ymarferol.

Y pŵer i addasu deddfwriaeth sy'n ymwneud â chymorth i gynllun gwenyniaeth sy'n rhan o gyfraith yr UE a ddargedwir. Nid oes cynlluniau ar y gweill i addasu'r ddeddfwriaeth hon.

**Rhan 2 Pennod 3 - Ymyrryd mewn Marchnadoedd Amaethyddol**

Adrannau 20 a 21 – darpariaethau ar gyfer datgan amodau eithriadol yn y farchnad a darparu cymorth ariannol i gynhyrchwyr amaethyddol mewn amodau o'r fath. Nid oes dyddiad wedi'i bennu ar gyfer pryd y caiff y pwerau hyn eu defnyddio gyntaf.

Adran 22 – Darpariaeth i newid cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud ag ymyrraeth gyhoeddus yn y farchnad a chymorth ar gyfer storfeydd preifat.

Mae Gweinidogion Cymru am ddiwygio'r darpariaethau hyn am y rhesymau a eglurir yn yr ateb i Gwestiwn 18. Mae'r newidiadau sydd ar y gweill i gyfraith yr UE a ddargedwir sy'n rheoli ymyrraeth gyhoeddus yn y farchnad a chymorth ar gyfer storfeydd preifat yn deillio o bwerau yn Neddf Amaethyddiaeth 2020, gan na fydd y

darpariaethau ym Mil Amaethyddiaeth (Cymru) wedi dod i rym pan fydd angen gwneud y newidiadau hynny. Does dim dyddiad wedi'i bennu ar gyfer pryd y caiff y pwerau ym Mil Amaethyddiaeth (Cymru) eu defnyddio gyntaf.

**Rhan 3 Pennod 1 - Casglu a rhannu data:**

Adran 24(2) – Darparu gwybodaeth sy'n ymwneud â'r Cyflenwad Bwyd-Amaeth. Nid oes dyddiad wedi'i bennu ar gyfer pryd y caiff y pŵer hwn ei ddefnyddio.

Adran 26(2) – Darparu gwybodaeth am weithgareddau perthnasol. Nid oes dyddiad wedi'i bennu ar gyfer pryd y caiff y pŵer hwn ei ddefnyddio gyntaf.

Adran 31(1) – Darpariaeth ar gyfer gorfodi gofynion gwybodaeth. Unwaith eto nid oes dyddiad wedi'i bennu ar gyfer pryd y caiff y pŵer hwn ei ddefnyddio gyntaf, ond disgwylir iddo gyd-fynd â'r pwerau gwneud rheoliadau yn adrannau 24(2) a 26(2).

**Rhan 3 Pennod 2 - Safonau Marchnata**

Adrannau 32(1) a 32(6) – darpariaeth ynghylch y safonau y bydd gofyn i'r cynhyrchion amaethyddol a restrir yn Atodlen 1 gydymffurfio â nhw a darpariaeth i ddiwygio Atodlen 1. Nid oes dyddiad wedi'i bennu ar gyfer pryd y caiff y pwerau hyn eu defnyddio gyntaf.

**Rhan 3 Pennod 3 – Categoreiddio Carcasau**

Adran 33(1) - darpariaeth ynghylch categoreiddio, adnabod a chyflwyno carcasau gwartheg, moch a defaid. Nid oes dyddiad wedi'i bennu ar gyfer pryd y caiff y pwerau hyn eu defnyddio gyntaf. Rydym yn bwriadu creu rheoliadau ar gategoreiddio carcasau defaid, ond gan ddefnyddio'r pwerau yn Neddf Amaethyddiaeth 2020, gan na fydd darpariaethau yn y Bil hwn wedi dod i rym pan ddisgwylir cyflwyno'r rheoliadau hyn.

**Rhan 6: Cyffredinol**

Adran 50 – Yn darparu'r pŵer i newid ystyr "amaethyddiaeth" (adran 48) a "gweithgaredd ategol" (adran 49). Nid oes cynlluniau i newid y diffiniadau hyn ar hyn o bryd. Datblygwyd y pŵer i'w newid yr un pryd â diffiniad cynhwysfawr o Amaethyddiaeth a Gweithgareddau Ategol. Ei ddiben yw sicrhau bod y Bil, a'r pwerau a'r swyddogaethau sydd ynddo, yn gallu addasu i adlewyrchu unrhyw newidiadau i arferion amaethyddol o ganlyniad i newid i ddulliau rheoli tir neu dechnoleg yn y dyfodol ac i gydsymud â'r sector.

| |
|---|
| **2. A allwch ddarparu rhagor o wybodaeth ynghylch pam nad oes gennych unrhyw gynlluniau machlud ar gyfer pwerau parhad y Cynllun Taliad Sylfaenol na'r Polisi Amaethyddol Cyffredin, yn enwedig gan mai'r bwriad yw i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy fod yn brif ffynhonnell gyllid i ffermwyr yn y dyfodol, a dirwyn y Cynllun Taliad Sylfaenol i ben dros y cyfnod trosglwyddo?** |
| Rwyf wedi cyhoeddi fy mwriad i gadw Cynllun y Taliad Sylfaenol tan 2023 er mwyn rhoi cymorth i ffermwyr wrth i ni gydweithio i newid i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.<br><br>Ni fyddwn yn gwneud unrhyw newidiadau nes y gallwn fod yn siŵr bod y system newydd wedi'i chynllunio'n ddigonol, ein bod wedi cynnal yr asesiadau effaith perthnasol a'n bod yn hyderus ei bod yn weinyddol ymarferol.<br><br>Bydd tystiolaeth sy'n cael ei chasglu drwy Gyd-ddylunio yn cyfrannu at y sylfaen dystiolaeth ehangach (ynghyd â ffynonellau tystiolaeth eraill) ac yn ein helpu i ddylunio cynlluniau yn y dyfodol. Byddaf yn ymgynghori ar y cynllun terfynol a'r trefniadau pontio yn 2023.<br><br>Bydd penderfyniad terfynol ar y cynigion ac felly'r rheoliadau sy'n ffurfio'r cynllun yn cael eu gwneud ar ôl yr ymgynghoriad yn 2023. |
| **3. A allwch chi nodi pa asesiad yr ydych wedi'i wneud o effaith bosibl Deddf y Farchnad Fewnol (UKIMA) ar effeithiolrwydd darpariaethau'r Bil os cânt eu pasio gan y Senedd a dod yn gyfraith?** |
| Bydd Cymru'n cael llunio ei safonau ei hun y mae'n rhaid i'r cynhyrchion amaethyddol a restrir yn atodlen 1 i Ddeddf Marchnad Fewnol y DU gydymffurfio â nhw pan gânt eu marchnata yng Nghymru, a chategoreiddio, adnabod a chyflwyno carcasau gwartheg, moch a defaid.<br><br>Yn yr un modd, bydd gan Loegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon y pŵer i wneud eu darpariaethau eu hunain yn y materion hyn.<br><br>Fel sy'n wir o ran Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru), rydym yn glir bod Senedd Cymru'n cael deddfu heb orfod ystyried gofynion UKIMA.<br><br>Felly, bydd y safonau ar gynhyrchion amaethyddol sy'n cael eu marchnata yng Nghymru'n berthnasol waeth o ble yn y DU y daw'r cynhyrchion hynny.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi mynegi ei barn yn glir am UKIMA gydol taith Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru). Nid yw wedi newid - mewn meysydd sydd wedi'u datganoli, mae'r Senedd yn parhau i gael deddfu heb orfod ystyried gofynion UKIMA. |

| |
|---|
| **4. Mae adran 23 o'r Bil yn rhoi llwybr i denantiaid y Ddeddf Daliadau Amaethyddol ddatrys anghydfod. A yw hyn yn ddigon i sicrhau bod tenantiaid yn gallu cael cymorth amaethyddol a ddarperir o dan y Bil? A ydych chi wedi ystyried unrhyw ddarpariaeth amgen, neu ddarpariaeth ychwanegol, i hyrwyddo mynediad?** |
| Mae tir sy'n cael ei rentu gan denantiaid yn ffurfio rhan sylweddol o dir amaeth Cymru ac mae sicrhau bod denantiaid yn cael rhannu manteision y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) a chymorth yn y dyfodol yn bwysig i ni o ran gwireddu ein canlyniadau.<br><br>Nod y ddarpariaeth, gyda dylunio cynlluniau'n ofalus, yw sicrhau mynediad teg i ffermwyr tenant i gymorth amaethyddol o dan y Bil.<br><br>Mae'r gweithredoedd sylfaenol yn cael eu dylunio gyda'r nod y gall ffermwyr tenant eu cynnal. Byddan nhw'n helpu ffermydd i ddod yn fwy cynaliadwy. Dylen nhw fod o fewn cyrraedd rhwydd y rhan fwyaf o ffermwyr a dylen nhw allu eu hintegreiddio â'u harferion ffermio presennol. Y gweithredoedd hyn fydd y sylfaen i ffermwr allu mynd yn eu blaenau a gwneud mwy drwy ddewis gweithredoedd ychwanegol a derbyn taliadau ychwanegol.<br><br>Rydym am gynnig cymaint o hyblygrwydd ag sy'n ymarferol i ffermwyr gynnal y gweithredoedd sylfaenol mewn ffordd sy'n gweithio orau i'w fferm, gan geisio sicrhau yr un pryd y gwireddir y dibenion y rhoddir cymorth ar eu cyfer, ac sy'n cyfrannu tuag at amcanion SLM. Rydym yn cydnabod efallai na fydd rhai ffermydd yn gallu cynnal pob Gweithred Sylfaenol o'r cychwyn cyntaf (er enghraifft, oherwydd natur y fferm, ei thopograffeg neu gontractau rheoli tir). Felly, er y bydd rhai eithriadau, fel man cychwyn dylai pob fferm yn y Cynllun gynnal pob Gweithred Sylfaenol.<br><br>Rydym yn deall y gallai rhai tenantiaid ei gweld hi'n anodd cynnal y gweithredoedd opsiynol oherwydd telerau eu cytundeb tenantiaeth. Rydym wrthi'n ystyried sut y gallai landlordiaid a thenantiaid gydweithio i lofnodi cytundebau er budd y ddwy ochr, fel yr enghreifftiau yn Adolygiad Rock.<br><br>Rydym wedi sefydlu gweithgor tenantiaeth i weithio gyda ni i ystyried y rhwystrau y gallai ffermwyr tenantiaid eu hwynebu wrth gymryd rhan yn yr SFS.<br><br>Mae'r ddarpariaeth yn y Bil yn cyflwyno cyfrwng ar gyfer datrys anghydfodau ar gyfer tenantiaethau Deddf 1986. Gwnaethom ystyried a oedd angen darpariaethau tebyg yn Neddf 1995, ond ceir yn honno drefn gyffredinol eisoes ar gyfer datrys anghydfodau, felly byddai trefniadau ychwanegol yn ddiangen. |
| **5. Mae adran 29 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru "gyhoeddi" gofyniad drafft o dan adrannau 24(1) neu 26(1). Ble fydd hwn yn cael ei gyhoeddi? A fydd y diffyg cywirdeb mewn perthynas â chyhoeddi'r wybodaeth hon yn amharu ar hygyrchedd?** |

| |
|---|
| Fel pob ymgynghoriad, bydd y gofynion a'r hysbysiadau preifatrwydd ar gyfer casglu a rhannu data yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru, a byddant ar gael yn ddwyieithog. |
| **6. Yn ogystal ag ystod o bwerau gwneud is-ddeddfwriaeth, mae'r Bil yn diwygio nifer o ddarnau hŷn o ddeddfwriaeth (yn y Saesneg) fel Deddf Coedwigaeth 1967. A wnaethoch chi ystyried gwneud darpariaeth ar wyneb y Bil, yn hytrach na diwygio deddfwriaeth arall, a hynny er mwyn galluogi'r darpariaethau i fod yn gwbl ddwyieithog ac i wella hygyrchedd y gyfraith i bobl Cymru?** |
| Mae'r Bil yn diwygio rhai trefniadau statudol sydd wedi hen ennill eu plwyf, fel y rhai yn Neddf Coedwigaeth 1967 a Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.<br><br>Byddai ceisio cyflawni'r polisi trwy ddarpariaethau annibynnol mewn Mesur Senedd Cymru wedi arwain at broblemau hygyrchedd a chymhlethdod diangen.<br><br>Os mai'r hyn sy'n cael ei awgrymu yw y gellid bod wedi defnyddio'r Bil i ddileu pob darpariaeth Gymreig yn Neddf 1967, a'i hail-ddatgan gydag unrhyw newidiadau angenrheidiol, yna byddai hwnnw wedi bod yn ddarn sylweddol o waith. Yn wyneb hynny ac am y byddai wedi ailffocysu'r Bil ar draul y diwygiadau amaethyddol neu'r gwelliannau sydd y fy marn i yn angenrheidiol er mwyn rhoi fy mholisïau pwysig yn y maes hwn ar waith, dewisais y llwybr a nodir yn y Bil. |
| **7. Sut mae'r pwerau i ganiatáu i gorff Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ddiwygio, atal neu ddirymu trwydded cwympo coed y mae wedi'i rhoi yn rhai priodol a chymesur? Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod CNC yn defnyddio'r pwerau hyn yn briodol?** |
| Mae swyddogion wedi cyhoeddi canllawiau anstatudol i CNC ar sut y mae gweithredu'r pwerau hyn er mwyn sicrhau defnydd priodol a chymesur.<br><br>Mae CNC wedi datblygu papur lefel uchel sy'n adlewyrchu'r canllawiau hyn. Mae'r dogfennau hyn wedi eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru fel rhan o Ddatganiad o Fwriad y Polisi sy'n cefnogi'r Bil.<br><br>Mae CNC bellach yn datblygu canllawiau mewnol ac allanol llawn er mwyn sicrhau dull cyson a chymesur o weithredu'r pwerau hyn. Byddan nhw'n cael eu cyhoeddi i gyd-fynd â chychwyn y darpariaethau.<br><br>Bydd fy swyddogion yn cynnal adolygiad ôl-weithredu o'r ddeddfwriaeth o fewn 3 blynedd ar ôl cychwyn y diwygiadau i Ddeddf Coedwigaeth 1967. |

| |
|---|
| Byddwn ni'n gweithio gyda CNC a rhanddeiliaid i gytuno ar gasgliad o ddata perthnasol ar ôl ei chychwyn er mwyn monitro effaith y ddarpariaeth goedwigaeth yn y Bil. |
| **8. A oes gan Weinidogion Cymru bwerau digonol i ymyrryd os canfyddir nad oedd CNC yn defnyddio'i bwerau'n briodol?** |
| Mae gan Lywodraeth Cymru y pwerau i roi gorchymyn i CNC mewn perthynas â gweithredu'r pwerau hyn os oes angen. |
| **9. Mae adran 40 yn diwygio adran 17 o Ddeddf Coedwigaeth 1967 (cosb am gwympo coed heb drwydded) i gynyddu'r ddirwy uchaf am gwympo coed yn anghyfreithlon o ddirwy lefel 4 (£2,500) i ddirwy lefel 5 (anghyfyngedig). Yn eich barn chi, a yw'r cynnydd hwn yn y gosb ariannol yn gymesur ac yn gyfiawn?** |
| Fel y mae Deddf Coedwigaeth 1967 ar hyn o bryd, gall person gael llai o ddirwy am gwympo coeden yn anghyfreithlon nag am dorri amod trwydded gwympo.<br><br>Eir i'r afael â'r anghysondeb hwn drwy gynyddu'r gosb ariannol am gwympo'n anghyfreithlon i'r un lefel â'r gosb orfodi bresennol am beidio â chydymffurfio ag amodau cwympo. Gallai gadael yr anghysondeb hwn heb ei ddatrys danseilio'r pwerau newydd yn y ddarpariaeth goedwigaeth.<br><br>Bydd hefyd yn rhoi hyblygrwydd i'r llysoedd osod dirwyon uwch pan geir achos difrifol a bydd yn anogaeth hefyd yn erbyn cwympo coed yn anghyfreithlon.<br><br>Mae hyn yn gyson â Lloegr, lle cafodd y terfyn ar y dirwyon hyn ei ddileu gan Atodlen 16 para 2 Deddf yr Amgylchedd 2021 (sydd heb gychwyn eto). |
| **10. Pa fesurau diogelu y mae'r Bil yn eu darparu i ddiogelu data personol unigolion?** |
| Mae darpariaethau casglu data'r Bil yn cydymffurfio â GDPR y DU a deddfwriaeth diogelu data cyffredinol.<br><br>Mae darpariaethau rhannu data'r Bil yn fanwl iawn ac yn cynnwys nifer o gyfyngiadau a mesurau diogelu, megis y dibenion y gellir casglu data ar eu cyfer a sut mae prosesu'r data.<br><br>Ni chaniateir casglu data ond er ychwanegu at un neu ragor o ddibenion mewn rhestr benodol a chyfyngedig sydd wedi'u nodi yn y Bil, megis helpu i gynyddu |

| |
|---|
| cynhyrchiant, hyrwyddo tryloywder neu degwch mewn cadwyni cyflenwi bwyd-amaeth neu fonitro ffynonellau cyflenwi bwyd.<br><br>At hynny, dim ond drwy ddefnyddio gweithdrefn gadarnhaol y Senedd y caiff Gweinidogion Cymru wneud unrhyw reoliadau o dan y Bil sy’n cyflwyno rhwymedigaeth i ddarparu gwybodaeth. Mae hynny’n rhoi pwerau craffu sylweddol i aelodau'r Senedd mewn perthynas â'r wybodaeth sy'n cael ei chasglu.<br><br>Ceir mesurau diogelu pellach. Yn unol â'n rhwymedigaeth statudol i ymgynghori â Swyddfa'r Comisiynwyr Gwybodaeth (ICO) fel Rheoleiddiwr y DU (Erthygl 36(4) o'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol) wrth ddrafftio deddfwriaeth sy'n effeithio ar brosesu data personol, mae fy swyddogion wedi ymgynghori â'r ICO ar y darpariaethau data o fewn y Bil.<br><br>Mae pob agwedd ar gasglu a diogelu data ynglŷn â'r Bil hwn yn faes trafod parhaus. Mae'r ICO yn sicrhau bod y darpariaethau'n cydymffurfio â'r egwyddorion diogelu data yn GDPR y DU a Deddf Diogelu Data 2018. O ganlyniad, ni all Llywodraeth Cymru roi deddfwriaeth ar waith sy'n diystyru'r egwyddorion hyn ac nad yw'n parchu GDPR y DU. |
| **11. A allech chi egluro’r mesurau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu rhoi ar waith i sicrhau bod unigolion yn deall yn glir sut y caiff eu gwybodaeth ei defnyddio a’i phrosesu?** |
| Cyn casglu unrhyw ddata, byddwn yn cyhoeddi’r math o ddata fydd yn cael eu casglu, pwrpas eu casglu, sut y bydd y data'n cael eu casglu a'u defnyddio, yn ogystal â pha mor aml y byddwn yn eu casglu o dan y gofyniad.<br><br>Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru fod wedi cyhoeddi eu gofynion drafft arfaethedig o leiaf bedair wythnos cyn gofyn am y wybodaeth honno, hynny er mwyn gweld sylwadau. Rhaid i'r gofynion hyn nodi dibenion prosesu’r wybodaeth ac ni chaiff prosesu'r wybodaeth fynd yn groes i’r gofynion a bennir.<br><br>Bydd unigolion yn cael gwybodaeth preifatrwydd clir am sut y bydd Llywodraeth Cymru ac unrhyw bartneriaid yn defnyddio data. |
| **12. Yn unol â GDPR y DU a deddfwriaeth diogelu data arall, a fydd yn ofynnol i unigolion, gan gynnwys ffermwyr, gydsynio i brosesu eu data?** |
| Os bydd ffermwyr yn rhoi data yn wirfoddol, er enghraifft, trwy’r Arolwg Busnes Fferm Blynyddol, bydd angen eu caniatâd i brosesu'r data. |

| |
|---|
| Mae'r Bil hefyd yn cynnwys mecanweithiau statudol a all ei gwneud yn ofynnol i ffermwyr ddarparu mathau penodol o ddata at ddibenion cyfyngedig a phenodol ac er na fydd angen caniatâd ffermwyr i ddefnyddio'r mecanweithiau hyn, bydd ffermwyr yn gallu dylanwadu ar y gofynion drwy gyflwyno'u sylwadau eu hunain, drwy gynrychiolwyr rhanddeiliaid neu aelodau'r Senedd am natur ac effeithiau ymarferol y gofynion arfaethedig.<br><br>Fel y nodwyd eisoes, bydd unigolion gan gynnwys ffermwyr yn cael gwybodaeth preifatrwydd clir ynghylch sut y bydd Llywodraeth Cymru ac unrhyw bartneriaid yn defnyddio data. |
| **13. Rydym yn nodi nad yw'n bolisi nac yn bwriad ehangach gan Lywodraeth Cymru i werthu unrhyw ddata a gesglir yn unol â Phennod 1 o Ran 3 o'r Bil i drydydd partïon. Fel y cyfryw, a fyddech yn ystyried diwygio'r Bil i roi gwaharddiad penodol ar werthu data o'r fath?** |
| Er nad oes darpariaeth o fewn y Bil sy'n benodol yn gwahardd gwerthu gwybodaeth a gasglwyd i drydydd partïon, nid yw'n bolisi nac yn fwriad gan Lywodraeth Cymru i werthu data i drydydd partïon, felly nid wyf yn credu bod angen gwaharddiad penodol ar werthu data.<br><br>O dan **GDPR y DU does ond angen datgan beth fydd yn cael ei wneud gydag unrhyw ddata**, ac felly, nid yw'n ofynnol datgan beth na fydd yn cael ei wneud. Rydyn ni ond yn nodi'r hyn y gellir ei wneud gyda'r data o fewn y Bil a'r rheoliadau sy'n cyd-fynd â nhw.<br><br>Byddai cynnwys darpariaeth i wahardd gwerthu data yn benodol, yn golygu y bydd angen ystyried gweithredu darpariaethau pellach i fynd i'r afael â **phob** maes na chaiff data eu ddefnyddio. |
| **14. Byddai'r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru addasu cyfraith yr UE a ddargedwir. A yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu cadw cyfraith yr UE a ddargedwir yn y meysydd y mae'r Bil hwn yn eu cwmpasu, a hynny gan ddefnyddio pwerau o dan Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (REUL)?** |
| Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y bydd yn ymateb i'r sefyllfa sydd i bob pwrpas wedi'i gorfodi arnom gan Lywodraeth y DU o ran adolygu REUL. Yn gyffredinol, ein barn yw bod cyfraith yr UE a ddargedwir, fel cyfraith yr UE o'i blaen, yn gweithio'n dda ac, o ganlyniad, heblaw am ddiwygiadau graddol i'r gyfraith yn ôl y gofyn dros amser fel gydag unrhyw gorff arall o gyfraith, nid oedd gennym unrhyw fwriad i ddiddymu, dirymu na diwygio REUL erbyn dyddiad mympwyol ar sail ideolegol. |
| **15. A allai Llywodraeth Cymru gadw cyfraith yr UE a ddargedwir yn y meysydd y mae'r Bil hwn yn eu cwmpasu, neu a yw'n dibynnu ar** |

| |
|---|
| **Lywodraeth y DU i gadw cyfraith berthnasol yr UE a ddargedwir hefyd, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, i ailadrodd y sefyllfa fel y mae ar hyn o bryd?** |
| Fel y mae wedi'i ddrafftio, mae gan y Bil REUL bwerau y gallai Llywodraeth Cymru eu harfer i gadw REUL mewn meysydd sydd wedi'u datganoli. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y bydd yn ymateb i'r Bil hwn ac yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i nodi pob REUL sydd wedi'i ddatganoli gan gynnwys yr offerynnau hynny a wnaed gan Lywodraeth a Senedd y DU. |
| **16. Pa drafodaethau sydd wedi'u cynnal gyda llywodraethau eraill y DU mewn perthynas â chyfraith yr UE a ddargedwir yn y meysydd y mae'r Bil hwn yn eu cwmpasu. Er enghraifft, a yw Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o unrhyw gynlluniau sydd gan Lywodraeth y DU ar gyfer y gyfraith hon yr UE a ddargedwir?** |
| Mae rhai o adrannau Llywodraeth y DU (gan gynnwys DEFRA) wedi dechrau rhannu eu dehongliad cychwynnol o'r rhaniad yng nghyfraith yr UE a ddargedwir sydd wedi'i dargadw/datganoli â swyddogion Llywodraeth Cymru ac maent wrthi'n ystyried sut i ymateb a pha wybodaeth bellach sydd ei hangen. Mae'r gwaith hwn yn ddeinamig gan fod offerynnau REUL newydd yn cael eu nodi wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen. |
| **17. Sut y gallai cynlluniau o'r fath effeithio ar bwerau y mae'r Bil hwn yn eu rhoi i Weinidogion Cymru?** |
| Byddwn yn parhau i drafod hyn ac yr un pryd, rydym yn ystyried sut i ymateb yn y misoedd nesaf wrth i farn Llywodraeth newydd y DU ar y Bil ddod yn hysbys. |
| **18. O dan Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (REUL), gallai cyfraith yr UE a ddargedwir yn y meysydd y mae'r Bil hwn yn eu cwmpasu ddod i ben yn awtomatig ar ddiwedd 2023. Sut y gallai hynny effeithio ar allu Llywodraeth Cymru i gyflawni amcanion y Bil hwn (yn benodol mewn perthynas ag ymyrraeth yn y farchnad gyhoeddus neu gymorth ar gyfer storio preifat)?** |
| Fel yr wyf wedi'i ddweud o'r blaen, byddwn yn parhau i gymryd rhan ac yr un pryd, yn ystyried sut i ymateb yn y misoedd nesaf wrth i farn Llywodraeth newydd y DU ar y Bil ddod yn hysbys. Unwaith y bydd pethau'n fwy eglur, byddwn yn gallu asesu sut y bydd y Bil REUL yn effeithio ar ymyrraeth gyhoeddus a chymorth ar gyfer storfeydd preifat.<br><br>Rydym yn bwriadu dod ag Ymyrraeth Gyhoeddus i ben a diwygio cynlluniau Cymorth ar gyfer Storfeydd Preifat mewn deddfwriaeth Gymreig y flwyddyn nesaf. |

Mae cynlluniau Ymyrraeth Gyhoeddus yn fath aneffeithlon o gymorth i’r farchnad, gyda chostau cysylltiedig uchel. Felly rydym am iddo ddod i ben am nad yw’n rhoi gwerth ein harian i ni.

Rydym hefyd yn bwriadu dileu'r gofynion ar i weithredwyr gyflwyno ernes ar gyfer contractau Cymorth Storfeydd Preifat ac i'r Asiantaeth Taliadau Gwledig gynnal archwiliadau interim o gynhyrchion mewn cynlluniau o'r fath.

# Eitem 11

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 13

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon